Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Adroddiad Perfformiad Corfforaethol

Ebrill 2013 - Medi 2013

Fersiwn	Dyddiad	Awdur
Drafft 1	Rhagfyr 13	Fran Lewis CIDT
Drafft 2	Ionawr 14	Fran Lewis CIDT
Drafft 3	Ionawr 14	Fran Lewis CIDT
Drafft 4	Ionawr 14	Fran Lewis CIDT
Drafft 5	Ionawr 14	Fran Lewis CIDT

Tabl Cynnwys

1.0	Trosolwg o Berfformiad	3
2.0	Cynnydd Cynllun Corfforaethol 2012 - 2017	10
3.0	Risgiau Corfforaethol	31
4.0	Cytundeb Canlyniadau	32
5.0	Dangosyddion Perfformiad	33
6.0	Gweithgarwch Rheoleiddio	34
7.0	6 Thema Allweddol / Gwella Conwy	36
8.0	Crynodeb o gynnydd Gwasanaethau	37

1.0 Trosolwg o Berfformiad

Mae'r Adroddiad Perfformiad Corfforaethol yn rhoi manylion hunanwerthusiad perfformiad y Cyngor. Mae'r adroddiad hwn yn cwmpasu'r cyfnod o Ebrill 2013 i fis Medi 2013. Mae'r Adroddiad Perfformiad Corfforaethol yn seiliedig ar adborth o'r gefnogaeth a her mewn adolygiadau perfformiad gwasanaeth (APG) a gynhelir bob chwe mis. Mae'r APG yn monitro gweithgareddau a llwyddiannau'r Cyngor, ein sefyllfa ariannol, risgiau a pherfformiad.

Mae aelodaeth yr Adolygiadau Perfformiad Gwasanaeth yn cynnwys y Pennaeth Gwasanaeth a'u Timau Rheoli Gwasanaeth, y Dirprwy Arweinydd, Aelod Portffolio Cabinet, Cadeirydd Pwyllgor Craffu, cynrychiolydd y Tîm Arweinyddiaeth Strategol, cynrychiolydd cymheiriaid Pennaeth Gwasanaeth a'r Rheolwr Perfformiad a Gwelliant Corfforaethol.

Mae'r crynodeb isod yn cynrychioli trosolwg lefel uchel o'r cynnydd a wnaed yn ystod 6 mis cyntaf y flwyddyn ariannol 13/14.

1.1 Llwyddiannau ac Arfer Da a nodwyd

- Cafwyd ailachrediad Rhagoriaeth Gwasanaeth Cwsmeriaid gan y Gwasanaeth Amgylchedd a'r Gwasanaeth Refeniw a Budd-daliadau.
- Mae Draig Werdd Lefel 4 wedi'i gyflawni gan yr awdurdod cyfan. ERF yn gweithio tuag at lefel 5.
- Bu cyfres o wobrau cenedlaethol - enillodd Marchnata wobr 'Trefnydd Digwyddiadau y Flwyddyn' y Gymdeithas Digwyddiadau Awyr Agored Cenedlaethol (NOEA). Cawsant hefyd wobr 'Partneriaeth Cynhyrchu y Flwyddyn' ar y cyd ag Orchard (hyrwyddwr Access All Eirias) ac enillodd y Tîm Trosglwyddo Gwasanaethau Cymdeithasol wobr Tîm y Flwyddyn BASW.
- TG oedd yr unig un o'r sector cyhoeddus yn y rownd derfynol yng Ngwobrau Diwydiant Technoleg Gwybodaeth y 'British Computer Society and Computing UK' 2013. Hefyd, llwyddasant i ennill Gwobr Gwasanaeth TG SOCTIM 2012.
- Roedd nifer ar y rhestr fer ar gyfer gwobrau. Roedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ar y rhestr fer ar gyfer Cyngor y Flwyddyn APSE. Roedd y gwasanaeth parciau ar y rhestr fer yng ngwobrau Meincnodi APSE yn y categorïau 'Perfformiwr Gorau' a 'Gwelliant Mwyaf';
- Roedd y gwasanaeth Profedigaeth ar y rhestr fer yng ngwobrau Meincnodi APSE yn y categori 'Perfformiwr Gorau';
- Cafwyd 15 gwobr ar gyfer ein parciau, mannau agored gwyrdd, a gwarchodfeydd natur, gan gynnwys 9 Baner Werdd.
- Mae'r broses o gyflwyno gwasanaeth ailgylchu gwledig o ymyl y palmant yn y sir gyfan wedi'i chwblhau ac mae'r cynllun peilot trolibocs wedi'i gwblhau ac mae bocsys wrthi'n cael eu dosbarthu.
- Mae'r Archwiliad CDLl Cyhoeddus wedi dod i ben. Mae'r Arolygydd Cynllunio wedi cyflwyno ei adroddiad ac mae'r CDLl wedi cael ei fabwysiadu gan y Cyngor.
- Cydnabuwyd yr Her Adolygiad Cymheiriaid CDLl fel Arfer Da yng Nghymru (Conwy yw'r cyntaf i gynnal adolygiad o'r fath. Mae hefyd wedi ymddangos mewn cylchgrawn cynllunio)
- Sefydlwyd Bwrdd Sgiliau Corfforaethol ac mae cydlynydd wedi'i nodi.
- Sefydlwyd prosiect Gladstone i weithredu meddalwedd archebu ar-lein mewn Canolfannau Hamdden.
- Rhoddwyd 130 Aelodaeth Ffit Conwy i deuluoedd Maeth Conwy.
- Mae Conwy yn arwain ar grŵp thematig Ffrwd Gwaith UE Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru.
- Mae Cynllun Gweithredu Cyrchfan Conwy wedi cael ei adolygu ac mae'r llwyddiannau yn ystod y 3 blynedd gyntaf yn cael eu cyhoeddi.

- Mae gwefan twristiaeth newydd amlieithog wedi cael ei lansio, gan uno cyfres o wefannau.
- Conwy oedd un o'r 5 Awdurdod Lleol cyntaf yng Nghymru i gael gwobr datblygu lefel Rhuban gan Insport ac maent yn y broses o ymgeisio am statws lefel efydd. Mae hwn yn rhan o ymdrech Conwy i wneud y gorau o'r etifeddiaeth ar ôl y Gemau Olympaidd ar gyfer Sir Conwy.
- Mae integreiddio chwaraeon a gweithgareddau corfforol i unigolion ag anableddau i bob agwedd o ddarpariaeth gwasanaeth CDS wedi ei gwblhau.
- Cafwyd 100% o'r grant cytundeb canlyniadau gan Lywodraeth Cymru.
- Mae'r arolwg staff bob dwy flynedd wedi arwain at gyfradd gwblhau o 61% gydag 87% o'r staff yn dweud eu bod yn falch o weithio i Gonwy a byddai 87% o staff yn ein hargymell ni fel cyflogwr.
- Sefydlwyd fforwm Rheolwyr ac mae wedi cyfarfod 3 gwaith.
- Sefydlwyd Buddion Gweithwyr ac mae'n cynnwys lansiad y cynllun ceir gwyrdd, ffonau symudol a disgownt bws.

1.2 Materion allweddol lle mae gwaith ar y gweill i ddatblygu darpariaeth / gwella:

	Mater	**Camau Gweithredu**
1.	Mae'r pwysau ariannol yn dal i fod yn broblem sylweddol i'r awdurdod. Mae grwpiau adolygu cyllideb wedi'u sefydlu ar gyfer pob maes gwasanaeth. Mae effeithlonrwydd wedi cael eu cyflawni ond mae heriau pellach o'n blaen i gyrraedd targedau effeithlonrwydd yn y dyfodol.	UDRh
2.	Mae Cyfarwyddwyr Strategol yn adolygu'r holl fesurau perfformiad sy'n tanberfformio.	Y Tîm Arweinyddiaeth Strategol
3.	Mae angen cwmpasu amserlen prosiect i gyflwyno rhagoriaeth mewn gwasanaeth cwsmer ar draws yr awdurdod.	Rheolwr Gwasanaethau Gwybodaeth a Chwsmeriaid Corfforaethol
4.	Mae cyfyngiadau lle storio ar gyfer Cofnodion Modern ac ar gyfer Archifau. Mae'r gwasanaeth yn adolygu opsiynau ar gyfer storio, gan sicrhau bod gan bob gwasanaeth amserlen gadw ac ystyried yr opsiynau gyda EDRM.	Pennaeth Gwasanaethau Datblygu Cymunedol (GDC)
5.	Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy newydd gwblhau Asesiad Corfforaethol 19 wythnos a gynhaliwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru. Rydym yn aros am ganlyniad yr adroddiad hwn sydd i fod i gyrraedd ddiwedd mis Ionawr 2014.	UDRh
6.	Dechreuodd y Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf newydd ym mis Chwefror 2013 ac mae'r Prosiectau 'Cymunedau sy'n Dysgu' ar y gweill.	GDC
7.	Roedd Cam 1 cais VVP yn llwyddiannus, cyflwynwyd cam 2 erbyn 25/11/13 gan nodi grant o £14.7m yn erbyn cyfanswm gwariant o £41.25m.	GDC
8.	Mae'r achos busnes a gyflwynwyd gan y CIWB ar gyfer gweithredu'r Neuadd Ddinesig wedi cael ei asesu gan swyddogion ac wrthi'n mynd trwy'r broses ddemocrataidd	GDC
9.	Mae diffyg Strategaeth Celfyddydau corfforaethol yn effeithio ar sefydliadau celfyddydol yn y Sir; ond, mae gwaith wedi dechrau i gwblhau'r darn hwn o waith.	Venue Cymru
10.	Mae'r trawsnewidiadau ERF a Gwasanaethau Cymdeithasol ar y gweill a disgwylir iddynt sicrhau arbedion sylweddol i'r Awdurdod	ERF a GC
11.	Dechreuodd y peilot gwaith cynllun agored a hyblyg yn Dinerth Road ym mis Rhagfyr 2013	GC ac Asedau
12.	Gallai ddefnydd debyd uniongyrchol ar gyfer treth y cyngor gan	Refeniw a Budd-

breswylwyr a staff sy'n byw yng Nghonwy wella - atgoffir pobl bod gan hyn y potensial i sicrhau arbedion sylweddol os gallwn gynyddu'r nifer sy'n ei ddefnyddio.	daliadau
13. Mae angen gwella dadansoddi a chyflwyno adborth cymunedol a gwella'r modd rydym yn cofnodi canmoliaeth	UDRh
14. Mae angen cwblhau'r Adolygiad Rheolau Sefydlog Contractau	Archwilio Mewnol
15. Mae angen i ni barhau i weithio i wella cyrhaeddiad addysgol	Addysg
16. Mae angen cwblhau polisi diogelu ar gyfer anghenion recriwtio	GC ac AD
17. Gyda'r CMALl wedi'i ohirio am y tro, mae angen i ni sicrhau bod prynwyr tro cyntaf yn cael eu cyfeirio'n briodol.	Tai (Gwasanaethau Rheoleiddio)
18. Mae angen adolygiad o'r Rhaglen Trawsnewid Busnes.	Bwrdd Rhaglen Trawsnewid Busnes

1.3 Cwestiynau Allweddol a Drafodwyd yn yr Adolygiadau Perfformiad Gwasanaeth:

Yn dilyn yr asesiad corfforaethol, pwyslais yr adolygiad perfformiad gwasanaeth hwn oedd i gael sicrwydd ynghylch trefniadau llywodraethu o ran y cysylltiadau â chynlluniau strategol a rheoli perfformiad. Ar gyfer Adolygiadau Perfformiad Gwasanaeth yn y dyfodol, bydd Penaethiaid Gwasanaeth a Chyfarwyddwyr Strategol yn llofnodi datganiad o sicrwydd ynghylch llywodraethu o fewn y gwasanaeth.

1. Pa gynnydd sydd wedi'i wneud ar Flaenoriaethau'r Cynllun Gwasanaeth?

Darparodd pob Gwasanaeth adroddiad cynnydd canol blwyddyn ar eu Cynllun Gwasanaeth a oedd yn rhoi tystiolaeth o gynnydd a wnaed a'r camau sydd wedi'u sefydlu i fynd i'r afael â thanberfformiad. Mae archwiliad ar wahân yn cael ei gynnal ar y ba raddau y cydymffurfir â chynllunio gwasanaethau i roi adborth i wasanaethau.

2. Pa dystiolaeth allwch chi ei ddarparu bod y Cynllun Gwasanaeth yn diwallu anghenion y gymuned?

Roedd gwasanaethau yn gallu dangos tystiolaeth o'r cysylltiadau ag anghenion y gymuned drwy ymgysylltu â'r gymuned, dadansoddiad o adborth cwsmeriaid (e.e. datblygu cynlluniau ardal), a defnyddio'r ystadegau demograffig allweddol ar gyfer y maes gwasanaeth (e.e Adroddiad Ysgogwyr Allweddol, asesiad anghenion Un Conwy, ac asesiad anghenion Strategaeth Tai, CDLl). Mae gan yr holl gynlluniau gwasanaeth fesurau perfformiad i ddangos gwelliant er bod hyn yn fwy heriol ar gyfer gwasanaethau cefnogi. Cydnabuwyd ein bod angen gwella dadansoddi a chyflwyno adborth cymunedol.

3. Sut mae'r cynllun gwasanaeth yn cysylltu ag Un Conwy / Cynllun Corfforaethol?

Roedd pob gwasanaeth yn gallu dangos tystiolaeth o sut mae eu cynllun gwasanaeth yn cysylltu â'r 8 Canlyniadau i Ddinasyddion. Mae'n rhaid i'r holl adroddiadau i'r Cabinet a'r Cyngor gynnwys dolen i'r cynlluniau strategol.

4. A yw amcanion pdr y Pennaeth Gwasanaeth a'r rheolwr gwasanaeth yn cysylltu â'r cynllun gwasanaeth?

Mae pob gwasanaeth yn ymwybodol y dylai'r amcanion PDR gysylltu â'r cynllun gwasanaeth, ond mae angen gwella cyfradd cwblhau PDR ac mae angen i rai gwasanaethau ddiweddaru'r cysylltiadau dogfennu pan gynhelir y PDR nesaf (mae hyn oherwydd bod y PDR wedi'u cynnal cyn adolygu'r templed PDR).

5. Sut mae'r perfformiad gwasanaeth yn cymharu â gwasanaethau eraill tebyg?

Mae gwasanaethau yn ceisio meincnodi os yw'n ymarferol, ond oherwydd effeithlonrwydd cost, mae nifer y sefydliadau sy'n tanysgrifio i glybiau meincnodi (e.e. SOCITM, APSE, CIPFA, safonau Llyfrgell, adolygiad gymheiriaid CDLl) wedi gostwng yn sylweddol, sy'n cyfyngu ar lefel y meincnodi sydd ar gael. Mae lle i wella o ran meincnodi ar gyfer rhai meysydd gwasanaeth a gwell cyfeirnodi

mewn cynlluniau gwasanaeth ac adrodd ar y dadansoddiad a wnaed.

6. Beth mae'r gwasanaeth yn ei wneud i ymchwilio i arfer da a dulliau arloesol?

Ceir enghreifftiau da o wasanaethau yn ymchwilio i arfer da, e.e. y defnydd o adolygu gan gymheiriaid, adolygiad ar y cyd gydag lechyd ar reoli salwch cronig, ymchwil i ymgyrchoedd ymwybyddiaeth gyrwyr, ymchwil a wnaed i gynlluniau teithio cynaliadwy, ymchwil i'r tîm o amgylch y teulu, adolygiad gweithio ystwyth, a chymryd rhan mewn dau gynllun peilot gyda Swyddfa'r Cabinet. Roedd pob Gwasanaeth hefyd yn rhan o rwydweithiau proffesiynol sy'n bodoli yng Nghymru a rhai yn y DU. Mae potensial ar gyfer rhagor o ymchwil ac arfer da ymhellach i ffwrdd.

7. Pa dystiolaeth allwch chi ei darparu bod y gwasanaeth yn gwneud gwahaniaeth i'r gymuned?

Mae ffocws cynlluniau gwasanaeth yn seiliedig ar ganlyniadau dinasyddion a mesurau perfformiad i ddangos bod gwelliannau wedi'u sefydlu os yw'n berthnasol. Ceir adborth gan gwsmeriaid a phreswylwyr. Mae enghreifftiau yn cynnwys adolygiad Cynllun Cyrchfan Conwy, canlyniadau boddhad gan drigolion (llyfrgelloedd, diwrnodau glanhau'r amgylchedd). Ond, mae hwn yn faes y gellir ei wella i roi adborth i Aelodau e.e. drwy sesiynau Datblygu Aelodau.

8. A allwch chi roi sgôr hyder ar allu'r gwasanaeth i:

a. Orffen y flwyddyn ariannol o fewn y gyllideb
b. Cyflawni'r targed arbedion a osodwyd ar gyfer y flwyddyn ariannol
c. Cyflawni'r effeithlonrwydd a gynlluniwyd ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf.

Er bod y sefyllfa ariannol yn parhau i fod yn her sylweddol, ar y cyfan rhoddodd y prif wasanaethau sicrwydd y byddant yn gorffen y flwyddyn ariannol o fewn y gyllideb a'u bod ar y trywydd iawn i gyflawni eu harbedion ariannol. Os oes heriau, mae cyfathrebu rheolaidd gyda, a chefnogaeth gan staff y Gwasanaeth Ariannol. Ceir enghreifftiau da o arloesi i leihau costau contract a chynhyrchu incwm.

9. Sut ydych chi wedi dadansoddi canlyniadau'r Arolwg Staff a pha gamau ydych chi wedi'u rhoi ar waith?

Rhoddodd yr holl wasanaethau sicrwydd eu bod wedi dadansoddi canfyddiadau eu harolwg staff a bod camau gweithredu naill ai wedi'u cwblhau i fynd i'r afael â meysydd gwella, neu ar y gweill. Mae rhai gwasanaethau yn cynnal gweithdai staff i drafod y canfyddiadau yn fanylach. Mae'r cynlluniau gweithredu Arolwg staff yn cael eu monitro gan AD Corfforaethol, ac mae'r arolwg hefyd wedi bod yn thema yn Gwella Conwy 2013.

1.4 Dangosfwrdd Cynllun Corfforaethol 2012 - 2017

Mae'r tabl hwn yn cynrychioli trosolwg lefel uchel o asesiad y cynnydd a wnaed wrth weithredu'r Cynllun Corfforaethol. Mae'r cynnydd manwl wedi'i nodi yn adran 2.0 yr adroddiad.

ALLWEDD CAMAU GWEITHREDU:

Cam gweithredu ddim yn symud ymlaen / meysydd pryder wedi'u codi	Coch
Cam gweithredu yn symud ymlaen a dim pryderon wedi'u codi	Oren
Cam gweithredu wedi'i gyflawni	Gwyrdd

ALLWEDD PERFFORMIAD:

Coch – Yn is na'r pwynt ymyrraeth	Coch
Oren - Rhwng Ymyrraeth a'r Targed	Oren
Gwyrdd – wedi pasio'r targed	Gwyrdd

Canlyniad 1 - Mae Pobl yng Nghonwy wedi'u haddysgu ac yn fedrus				**Canlyniad 2 - Mae pobl yng Nghonwy yn ddiogel ac yn teimlo'n ddiogel**			
A1.1	Oren	**M1.1**	Gwyrdd	**A2.1**	Gwyrdd	**M2.1**	Gwyrdd
A1.2	Oren	**M1.2a**	Gwyrdd	**A2.2**	Oren	**M2.2**	Oren
A1.3	Oren	**M1.2b**	Coch	**A2.3**	Oren	**M2.3**	Oren
A1.4	Oren	**M1.3**	Gwyrdd	**A2.4**	Oren	**M2.4**	Gwyrdd
A1.5	Oren	**M1.4**	Gwyrdd			**M2.5**	Gwyrdd
A1.7	Oren	**M1.5**					
A1.8	Oren	**M1.6**					
		M1.7					
		M1.8	Gwyrdd				
		M1.9	Coch				
Canlyniad 3 - Mae pobl yng Nghonwy'n byw mewn tai diogel ac addas				**Canlyniad 4 - Mae pobl yng Nghonwy yn iach ac yn annibynnol**			
A3.1	Oren	**M3.1**	Gwyrdd	**A4.1**	Oren	**M4.1**	Gwyrdd
A3.2	Oren	**M3.2**	Gwyrdd	**A4.2**	Oren	**M4.2a**	Gwyrdd
A3.3	Coch	**M3.3**		**A4.3**	Oren	**M4.2a**	
A3.4	Gwyrdd	**M3.4a**		**A4.4**	Oren	**M4.3**	
A3.5	Oren	**M3.4b**				**M4.4**	Gwyrdd
A3.6	Oren	**M3.5**	Gwyrdd			**M4.5**	Coch
A3.7	Oren	**M3.6**					
		M3.7	Gwyrdd				
		M3.8					

Canlyniad 5 - Mae pobl yng Nghonwy'n byw mewn sir sydd ag economi ffyniannus				**Canlyniad 6 - Mae pobl yng Nghonwy yn byw mewn amgylchedd cynaliadwy**			
A5.1	Gwyrdd	**M5.1a**	Gwyrdd	**A6.1**	Gwyrdd	**M6.1**	
A5.2	Oren	**M1.5b**	Gwyrdd	**A6.2**	Oren	**M6.2**	
A5.3	Oren	**M5.2**		**A6.3**	Oren	**M6.3**	Gwyrdd
A5.4	Oren	**M5.3**		**A6.4**	Gwyrdd	**M6.4a**	
A5.5	Oren	**M5.4**		**A6.5**	Oren	**M6.4b**	
A5.6	Oren	**M5.6**	Gwyrdd	**A6.6**	Oren	**M6.5**	Coch
		M5.7	Gwyrdd			**M6.6**	Gwyrdd
		M5.8				**M6.7**	Oren
						M6.8	Oren

Canlyniad 7 - Mae pobl yng Nghonwy yn byw mewn sir lle mae treftadaeth, diwylliant a'r iaith Gymraeg yn ffynnu				Canlyniad 8 - Mae pobl yng Nghonwy'n cael eu hysbysu, eu cynnwys ac yn cael gwrandawiad.			
A7.1	Oren	**M7.1a**		**A8.1**	Oren	**M8.1**	Gwyrdd
A7.2	Gwyrdd	**M7.1b**		**A8.2**	Oren	**M8.2**	Gwyrdd
A7.3	Gwyrdd	**M7.2**	Coch	**A8.3**	Oren	**M8.3a**	Gwyrdd
		M7.3		**A8.4**	Oren	**M8.3b**	Gwyrdd
		M7.4	Gwyrdd	**A8.5**	Oren	**M8.4**	Gwyrdd
		M7.5				**M8.5**	Oren
						M8.6	
						M8.7	
Blaenoriaethau Cyffredinol							
GA1	Oren	**GM 1**	Oren				
GA2	Oren						
GA3	Oren						
GA4	Oren						

1.5 Perfformiad Corfforaethol - Busnes fel Arfer (BAU)

ALLWEDD CAMAU GWEITHREDU:

Cam gweithredu ddim yn symud ymlaen / meysydd pryder wedi'u codi	Coch
Cam gweithredu yn symud ymlaen a dim pryderon wedi'u codi	Oren
Cam gweithredu wedi'i gyflawni	Gwyrdd

ALLWEDD PERFFORMIAD:

Coch – Yn is na'r pwynt ymyrraeth	Coch
Oren - Rhwng Ymyrraeth a'r Targed	Oren
Gwyrdd – wedi pasio'r targed	Gwyrdd

Cyf	Teitl	Ein canlyniadau yn 12/13	Canol Blwyddyn 13/14	Targed 13/14	COG
GM 1	Cyfradd cwblhau Adolygiadau Datblygu Perfformiad Blynyddol (PDR)	68.77	70.67%	80%	Oren
GM2	Arbedion cyllideb	£5.454m	Amh blynyddol	£5.157 m	
GM3	Nifer y diwrnodau gwaith/sifftiau a gollwyd i absenoldeb salwch am bob gweithiwr cyfystyr â llawn amser	10.18	8.7	9.5	Gwyrdd
M8.3a	Canran y cwynion y llwyddwyd i'w datrys yng ngham 1	89.0%	87%	85%	Gwyrdd
M8.3b	Nifer y cwynion a gafwyd	538	324	565	Oren

Yn ystod y cyfnod Ebrill i Medi cafwyd 341 o gwynion, ac o'r rhain mae 299 wedi cael eu datrys a 42 yn parhau i fod ar agor. Mae'r mwyafrif helaeth o gwynion yn cael eu datrys yng ngham 1, datrys yn lleol. Ni ddarparwyd dadansoddiad o'r mathau o gwynion a chanmoliaeth erbyn canol y flwyddyn.

Cyf	Teitl	Ein canlyniadau yn 12/13	Canol Blwyddyn 13/14	Targed 13/14	COG
CHS1	Nifer y damweiniau, digwyddiadau a damweiniau a osgowyd	1,735	Amh blynyddol		
CHS4ii	Cyfanswm nifer y damweiniau / digwyddiadau RIDDOR a nodwyd i'r HSE: b) ar gyfer y Cyngor cyfan	24	Amh blynyddol		
CHS5	Cydymffurfiaeth â'r Arolwg Safle Iechyd a Diogelwch % sy'n rhannol gydymffurfio	6.0%	Amh blynyddol		
CHS6	Cydymffurfiaeth â'r Arolwg Safle Iechyd a Diogelwch % heb gydymffurfio	1.8%	Amh blynyddol		

2.0 Cynnydd Cynllun Corfforaethol 2012 - 2017

Canlyniad 1 - Mae Pobl yng Nghonwy wedi'u haddysgu ac yn fedrus

Ein Camau Blaenoriaeth

A1.1	**Cefnogi datblygiad mentrau cymdeithasol i gefnogi cyfleoedd gwaith.**	**COG**
	Mae naw o brosiectau wedi'u cefnogi drwy'r cynllun Cyfenter. Mae Gweithgor Mentrau Cymdeithasol Corfforaethol wedi'i sefydlu sy'n adrodd i Bartneriaeth Economaidd y Sir a'r Bwrdd Rhaglen Sgiliau. Mae 'Melin Drafod' Menter Gymdeithasol' wedi'i sefydlu. Hefyd, mae Dadansoddiad o Anghenion 'Trydydd Sector' yn yr ardal wledig wedi ei gwblhau, sydd wedi'i ariannu drwy'r CDG.	Oren
A1.2	**Dod â phobl ddiamddiffyn yn nes at fod mewn gwaith trwy ddarparu sgiliau ymarferol a chyfleoedd hyfforddiant iddynt.**	
	Mae'r Rhaglen Gwaith Amdani wedi bod yn gweithredu ers nifer o flynyddoedd, gan dargedu pobl ddiamddiffyn gyda chefnogaeth i gael gwaith. Mae'r prif gyllid yn dod i ben yn 2014, ond mae ffynonellau cyllid eraill wedi'u darganfod. Mae'r perfformiad wedi'i restru yn y mesurau isod.	Oren
A1.3	**Cynyddu hyd, safon a nifer y lleoliadau profiad gwaith sydd ar gael gyda'r Cyngor i helpu pobl leol i feithrin rhagor o sgiliau a phrofiad er mwyn gwella eu cyfle i gael gwaith.**	
	Y ffigwr canol blwyddyn ar gyfer Lleoliadau Gwaith a drefnwyd hyd yn hyn yw 124 (Ebrill-Medi). Mae 89% o wasanaethau CBSC bellach yn cynnig lleoliadau gwaith sy'n gynnydd o 78% y llynedd. Er bod y targed yn parhau i fod yn 100%, mae trafodaethau ar y gweill i ystyried sut y gall rhai gwasanaethau oresgyn materion cyfrinachedd sy'n eu hatal rhag cynnig lleoliadau gwaith. Trefnwyd prosiect 'APPrentis' dros yr haf a oedd yn lleoliad gwaith cyflogedig 10 wythnos ar gyfer israddedigion mewn 15 o fusnesau yng Nghonwy. Roedd y prosiect yn brosiect TG cydweithredol i israddedigion a mynychodd y myfyrwyr Academi Technoleg Symudol lle cawsant ddysgu sut y gall fusnesau elwa ar y dechnoleg ddiweddaraf ac yna ei ddefnyddio yn eu lleoliad. Ar hyn o bryd, rydym yn edrych ar ffyrdd o barhau'r model hwn ar ôl llwyddiant mawr y cynllun hwn. Mae cydlynwyr lleoliad gwaith adrannol wedi cael eu nodi a chynhaliwyd cyfarfod ym mis Mehefin i gyflwyno canllawiau newydd a dogfennau ategol ar gyfer dull cyson o leoliadau. Mae'r cyngor yn cynnig lleoliadau tymor hir e.e. yn Adnoddau Dynol, mae myfyriwr blwyddyn 13 wedi bod yn gweithio 1 diwrnod yr wythnos am 12 mis. Mae hyn wedi arwain at gytundeb cyfnod penodol rhan amser ac mae'r aelod staff yn chwilio am swydd Prentisiaeth. Mae Conwy hefyd yn parhau i fod yn ynghlwm â'r Prosiect Datblygu Gweithlu BGLl.	Oren
A1.4	**Cynyddu nifer y prentisiaethau modern sydd ar gael i helpu pobl leol i feithrin rhagor o sgiliau a phrofiad er mwyn gwella eu cyfle i gael gwaith.**	
	Mae 21 prentis wedi cael eu cyflogi ac rydym yn recriwtio 7 pellach. Mae hyn yn cynrychioli cynnydd sylweddol ers 2010 lle cyflogwyd 1. Rydym wedi cyflogi ein Uwch Brentis TG cyntaf ar lefel 4, ac ar hyn o bryd yn gweithio gyda Llandrillo Menai i archwilio cyfleoedd pellach drwy Cwmni Prentis (ar gyfer ERF), a hefyd mae Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu lleol (CITB) wedi rhannu Prentisiaethau yn y diwydiant adeiladu. Hefyd, mae secondiad 4 mis ar gyfer Cyfreithiwr dan Hyfforddiant Llywodraeth Cymru yn cychwyn ym mis Ionawr 2014. Eto, mae Conwy yn cyfrannu'n sylweddol at y fforwm sgiliau strategol drwy brosiect Datblygu'r Gweithlu y BGLl. Mae cyflwyno gofyniad bod swyddi gweinyddol G01 a G02 yn cael eu trosi yn swyddi Prentis Modern (oni bai y gellir cyflwyno achos bod y swydd yn anaddas) fel rhan o broses rheoli swyddi gwag y Tîm Arweinyddiaeth Strategol, wedi cyfrannu'n uniongyrchol at y gwelliant sylweddol yn y nifer a recriwtiwyd. Syniad aelod o'r tîm AD oedd hwn, fel cynnig effeithlonrwydd busnes.	Oren
A1.5	**Datblygu isadeiledd TG mewn ysgolion i roi cymorth i bobl ifanc gael mynediad di-**	

	dor at ddysg dechnolegol gyfoethog er mwyn datblygu sgiliau TGCh pobl ifanc (addysg wedi'i alluogi'n ddigidol).	
	Rydym yn parhau i roi cefnogaeth i ysgolion wrth weithredu datblygiadau technolegol newydd, e.e. teclynnau dysgu llaw er mwyn gwella ysgogiad, safonau a mynediad at y cwricwlwm. O ganlyniad, mae niferoedd wedi cynyddu, ond nid ydym yn gallu parhau i hyrwyddo defnydd effeithiol i'r un lefel â cyn Ebrill oherwydd ad-drefnu Gwella Ysgolion Conwy GwE. Mae trafodaethau yn parhau i drosglwyddo strwythur cefnogi cwricwlwm / technegol TGCh i GwE yn unol â'r rhaglen ranbarthol. Rydym wedi ailstrwythuro mewnrwyd addysg / ysgolion Conwy er mwyn trosglwyddo a datblygu llwyfan ddysgu 'Moodle' draws-sirol. Mae hwn wrthi'n cael ei dreialu mewn ysgolion. Ond, nid oes unrhyw sicrwydd y bydd ar gael fel teclyn consortia. Mae'r broses gaffael i brynu offer TGCh a gwasanaeth TGCh a reolir ar gyfer Ysgol y Gogarth wedi cael ei ddyfarnu i gyflenwr	Oren
A1.6	**Gweithio ar y cyd â'n partneriaid i weithredu rhaglen ranbarthol o wella ysgolion er mwyn codi safonau a sicrhau cyrhaeddiad mewn sgiliau sylfaenol a Phynciau Craidd TGAU ym mhob ysgol.**	
	Cynhelir y gwaith o fonitro effeithiolrwydd Gwe yn rheolaidd. Mae ymweliadau tymor y Gwanwyn wedi galluogi Gwe i werthuso ysgolion gan arwain at gydnabyddiaeth o gryfderau a meysydd i'w datblygu. Mae'n rhy fuan i ganfod effaith lawn gwaith GwE. Bydd adroddiadau ymweliad yr hydref yn rhoi syniad clir o'r ysgolion sy'n perfformio'n dda ac ysgolion sy'n tanberfformio a bydd hyn yn nodi'r angen am gymorth ychwanegol ac yn nodi arferion da i feithrin gallu a rhannu ar draws ysgolion. Mae gan y Gwasanaeth Addysg systemau monitro i adolygu lefelau cyrhaeddiad ym mhob ysgol gynradd ac uwchradd ac mae cynlluniau gweithredu yn eu lle i gefnogi'r ysgolion hynny sydd angen cymorth i wella.	Oren
A1.7	**Pan fo'n ddichonadwy gwneud hynny'n ariannol, rhoi ein Rhaglen Moderneiddio Ysgolion ar waith er mwyn sicrhau fod adeiladau ein hysgolion, adnoddau athrawon a phrofiadau dysgu disgyblion yn addas i'r pwrpas.**	
	Mae Ysgol Ardal Cyffordd Llandudno yn mynd rhagddi. Mae'r tir wedi cael ei brynu, a rhagwelir y byddwn wedi cwblhau'r ysgol ardal newydd erbyn Medi 2015, yn amodol ar gymeradwyaeth achos busnes LIC. Yn Ardal Bae Colwyn 1 - rydym yn gweithio i gyflawni ysgol wedi'i chyfuno erbyn Medi 2016, yn amodol ar gymeradwyaeth achos busnes LIC. Yn Ardal Penmaenrhos - rydym yn gweithio i gyflawni'r ysgol erbyn Medi 2015, yn amodol ar gymeradwyaeth achos busnes LIC. Caerhun a Threfriw - rydym wrthi'n cwblhau asesiadau effaith, ac wedi cynnal cyfarfodydd â budd-ddeiliaid. Yn amodol ar gymeradwyaeth, rydym yn ceisio cyflawni'r ysgol erbyn Medi 2015. Ysgol y Gogarth – Mae'r holl faterion Cynllunio wedi'u datrys ac rydym ar darged i drosglwyddo cam 1 (ysgol) ym mis Rhagfyr 2013 ar gyfer ei defnyddio ym mis Ionawr 2014. Mae cam 2, sef dymchwel yr ysgol bresennol a'r tir ar amser ar gyfer mis Awst 2014.	Oren
A1.8	**Cefnogi datblygu cwrs gwyddoniaeth a thechnoleg addas yn ein hysgolion i helpu pobl ifanc i feithrin sgiliau a chymwysterau er mwyn gwella eu cyfle i gael gwaith.**	
	Yn 2012/13 yng Nghyfnod Allweddol 4 roedd yna amrywiaeth o 16 o bynciau. Ymestynnwyd hyn i 17 o bynciau yn 2013/14 (gwyddoniaeth gyfrifiadurol yw'r cwrs newydd sy'n cael ei gynnig). Roedd yr ystod o bynciau STEM (Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg) yng Nghyfnod Allweddol 5 yn 2012/13 yn 13 gyda chynnydd o 32 o ddysgwyr. Ymestynnwyd hyn i 14 o bynciau yn 2013/14. Mae'r ystod o bynciau STEM a gynigir rŵan yn eitem rhaglen sefydlog mewn cyfarfodydd cynllunwyr Cwricwlwm a chyfarfodydd Cydlynwyr Rhwydwaith. Trefnwyd digwyddiad STEM Conwy ar gyfer Blwyddyn 11/12 ym mis Tachwedd. Er mwyn gwella ymwybyddiaeth o brentisiaethau a hyrwyddo cyfleoedd, rhoddwyd cyflwyniadau i gydlynwyr rhwydwaith gan Airbus, Ynys Ynni, ac NWT. Cynhaliwyd digwyddiad ar gyfer rhieni a dysgwyr ym mis Tachwedd er mwyn hyrwyddo llwybrau prentisiaeth.	Oren

Sut fyddwn ni'n gwybod ein bod ni'n gwneud gwahaniaeth?

Cyf	Teitl	Canlyniad Canol Blwyddyn 12/13	Ein canlyniadau yn 12/13	Canol Blwyddyn 13/14	Targed 13/14	COG
M1.1	Nifer y Mentrau Cymdeithasol a gefnogir gan CBSC	amh	23	25	25	Gwyrdd
M1.2a	Nifer y bobl ddiamddiffyn a gefnogir	1066	1132 (cyfanswm o flwyddyn i flwyddyn)	1374	1150	Gwyrdd
M1.2b	Canran y bobl ddiamddiffyn a gafodd ganlyniad cadarnhaol	59%	65%	62.0%	75%	Coch
Mae'r canran hwn yn is na'r disgwyl oherwydd: newidiadau yn sut y câi deilliannau'r arian grant eu diffinio, nifer yr unigolion yr ydym wedi bod yn gweithio â nhw ac sydd wedi cael eu symud gan yr Adran Gwaith a Phensiynau at Raglen Waith y Llywodraeth a nifer uwch na'r disgwyl o unigolion sydd am ryw reswm neu'i gilydd wedi gadael y rhaglen yn gynnar.						
M1.3	Nifer y lleoliadau gwaith a ddarparwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy	134	256	153	185	Gwyrdd
M1.4	Nifer y prentisiaethau a ddarparwyd / a gefnogwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy	11	21	29	22	Gwyrdd
M1.5	% disgyblion Bwrdeistref Sirol Conwy sy'n cyflawni graddau A* i C ym mhynciau craidd TGAU (Saesneg/Cymraeg, a Mathemateg)	Ffigwr blynyddol	49.3%	Ffigwr blynyddol	56.1%	
M1.6a	Nifer cyfrifiaduron (dan 5 oed) o'i gymharu â nifer y disgyblion Cynradd: Uwchradd:	Ffigwr blynyddol	 1:6 1:3	Ffigwr blynyddol	 1:4 1:4	
M1.6b	Nifer y teclynnau llaw personol (dan 5 oed).	Ffigwr blynyddol	526	Ffigwr blynyddol	600	
M1.7	Nifer y trawiadau blynyddol ar yr Amgylchedd Dysgu Rhithwir (adnodd addysg ar y we yw hwn ar gyfer athrawon a disgyblion)	Ffigwr blynyddol	1,662,355	Ffigwr blynyddol	2,000,000	
M1.8	Cynnydd yn yr ystod pynciau Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg (STEM) sydd ar gael yn ychwanegol at y Mathemateg a'r Gwyddoniaeth statudol a gynigir yng Nghyfnod Allweddol 4	Ffigwr blynyddol	12	16		Gwyrdd
M1.8a	Nifer disgyblion Cyfnod Allweddol 4 sy'n dilyn pynciau Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg	Ffigwr blynyddol	4424	Ffigwr blwyddyn academaidd 5904		
M1.9	Cynnydd yn yr ystod pynciau Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg sydd ar gael yn ychwanegol at y Mathemateg a'r Gwyddoniaeth statudol a gynigir yng Nghyfnod Allweddol 5	Ffigwr blynyddol	13	13	15	Coch
Ni chyflawnwyd y targed oherwydd cyfyngiadau cynllunio'r cwricwlwm h.y. er mwyn cynnig pwnc STEM newydd mae angen gollwng pwnc arall. Ar gyfer 2013/14, mae'r nifer wedi cynyddu i 14 oherwydd bod Rhaglennu Cyfrifiadurol wedi'i gynnig fel rhan o'r rhaglen LINC yn lle un o'r cyrsiau galwedigaethol eraill.						
M1.9a	Nifer disgyblion Cyfnod Allweddol 5 sy'n dilyn pynciau Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg		1710	Ffigwr blwyddyn academaidd 1742		

Hunanwerthusiad o'n perfformiad

Ceir enghreifftiau o gynnydd da, megis y cynnydd mewn lleoliadau profiad gwaith ac mae prentisiaethau modern rŵan yn cael eu cynnig. Mae rhai camau gweithredu megis y gefnogaeth i bobl ddiamddiffyn, wedi cael eu llesteirio gan newidiadau mewn arian grant a meini prawf cymhwyso ond mae adolygiad o ffynonellau ariannu yn golygu y gall y prosiect hwn barhau. Dylai effaith y gwasanaeth gwella ysgolion rhanbarthol 'GwE' a ddechreuodd ar 1 Ebrill 2013 fod yn amlwg dros y misoedd nesaf, pan fydd y flwyddyn bontio wedi'i chwblhau. O ganlyniad i'r hinsawdd ariannol bresennol mae'n bosibl y byddwn yn gweld pwysau ariannol pellach a'r angen am ragor o newid. Bydd yn rhaid i ni adolygu'r camau blaenoriaeth a'r mesurau yn ôl y gofyn.

Meysydd i'w gwella / datblygu

Mae arnom angen parhau i gefnogi ysgolion i wella canlyniadau addysg ar gyfer ein pobl ifanc, gan roi sylw penodol i wella cyrhaeddiad cyfnod allweddol 2 a TGAU. Trwy gyfrwng rhwydwaith 14 – 19 rydym yn gweithio gyda staff ysgolion i godi ymwybyddiaeth o'r cyfleoedd gyrfa sydd yn gysylltiedig â phynciau Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg. Mae angen i ni barhau i gynyddu nifer y prentisiaethau y gellir eu cynnig ac yn gweithio i asesu os yw'n ymarferol y gall 100% o wasanaethau gynnig lleoliadau gwaith.

Canlyniad 2 - Mae pobl yng Nghonwy'n ddiogel, ac yn teimlo'n ddiogel

Ein Camau Gweithredu Blaenoriaeth

A2.1	**Gwella yn ein swyddogaeth o ran gorfodaeth ac addysgu er mwyn mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol gan gynnwys, tipio anghyfreithlon, gollwng sbwriel, graffiti a baw cŵn.**	**COG**
	Rhybuddion Cosb Benodedig yn parhau i gael eu rhoi ar gyfer troseddau amgylcheddol. Mae gweithgarwch gorfodaeth ac addysgol yn cael effaith gadarnhaol ar lendid y strydoedd. Mae targedau glendid wedi'u pasio ac roedd gan y Sir y perfformiad gorau o ran glendid strydoedd ers i'r mesur mynegai glendid gael ei gyflwyno yn 2007. Yn ystadegol, profwyd bod glendid ardal yn cael effaith gadarnhaol ar dwristiaeth a lefelau troseddu. Rydym yn parhau i gynnal diwrnodau amgylcheddol ledled y sir i lanhau ardaloedd mewn partneriaeth â chymunedau lleol sydd wedi cael cefnogaeth gadarnhaol gan breswylwyr. Rydym wedi rhoi cyflwyniadau i ysgolion yn sôn am leihau gwastraff, ailgylchu a gollwng sbwriel. Mae Swyddogion Gorfodi'r Cyngor yn dal i fod yn weithgar yn y gymuned wrth dargedu baw cŵn. Rydym wedi cynnal ymgyrch baw ci o'r enw 'Cadwch yn lân - dim baw'. Mae ardaloedd baw cŵn wedi'u graddio yn ôl blaenoriaeth (a, b neu c) ac mae cynnydd yn cael ei adrodd yn ôl i Aelodau Ward. Rydym hefyd yn gweithio gydag ysgolion lleol i ddatblygu posteri i godi ymwybyddiaeth. Hyd yma rydym wedi ymweld â 9 ysgol lleol lle rhoddwyd cyflwyniad i godi ymwybyddiaeth o faw ci, gan gynnwys sesiwn holi ac ateb. Cymerodd pob un o'r ysgolion ran mewn cystadleuaeth dylunio poster dim baw cŵn, yna lamineiddiwyd y cynlluniau a'u rhoi o amgylch ffiniau'r ysgolion. Ar gyfartaledd, mae hyn wedi arwain at welliant o 90% yn yr ardaloedd hyn. Mae Kingdom yn parhau i wneud gwaith gorfodi a hyd yma maent wedi rhagori ar dargedau hanner cyntaf y flwyddyn ar gyfer baw cŵn a gollwng sbwriel.	Gwyrdd
A2.2	**Parhau i weithio gyda'n partneriaid trwy'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol i hybu a chynnal y ffaith fod Conwy'n Sir ddiogel.**	
	Mae Bwrdd Cymunedau Diogelach Gogledd Cymru yn cael ei sefydlu i oruchwylio diogelwch cymunedol ar gyfer y rhanbarth ac mae Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Conwy wedi cael ei ail-frandio fel 'Conwy Diogelach' (cafodd yr ailfrandio ei wneud heb	Oren

	unrhyw gost ychwanegol). Nod yr ailfrandio yw symleiddio ac egluro'r hyn y mae'r bartneriaeth yn ceisio ei gyflawni. Dros y 12 mis diwethaf, mae'r gatiau llwybrau cefn yng Nghonwy wedi dod yn ôl o dan reolaeth Conwy Diogelach. Mae adolygiad o'r gatiau wedi ei gwblhau ac arwyddion newydd wedi cael eu gwneud ar gyfer pob giât gyda rhif swyddfa i roi gwybod am unrhyw broblemau. Mae pob un o'r gwasanaethau brys wedi cael allwedd ac rydym wedi gwneud nifer o addasiadau i'r giatiau er mwyn sicrhau eu bod yn hawdd i'w defnyddio. Rydym wedi sicrhau cyllid gan y Comisiynydd Heddlu a Throseddu i'n galluogi i gael cyllideb ar gyfer cynnal a chadw giatiau.	
A2.3	**Parhau i hyrwyddo diogelu ar bob lefel drwy Fwrdd Lleol Diogelu Plant Conwy/Sir Ddinbych a Phwyllgor Diogelu Oedolion Diamddiffyn Conwy.**	
	Rydym yn treialu bwrdd diogelu rhanbarthol, ond mae amharodrwydd i wneud hyn hyd nes y ceir canlyniad y comisiwn gwasanaethau cyhoeddus ac adolygiad Williams. Ond, mae'r 3 bwrdd yn gweithio'n effeithiol ac mae rhai trefniadau da yn eu lle ar gyfer hyfforddiant. Nid yw'r partneriaethau Diogelu Plant wedi uno eto - rydym yn aros am ganlyniad yr adroddiadau uchod. Mae'r adroddiad blynyddol o'r bwrdd diogelu wedi'i gyflwyno yn ddiweddar. Mae arolygon o deuluoedd ar y gofrestr wedi cael eu cwblhau.	Oren
A2.4	**Parhau i weithio gyda'n partneriaid i wella cefnogaeth i'r teulu cyfan i ddelio â materion trais domestig, iechyd meddwl a chyffuriau ac alcohol.**	
	Mae'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol yn parhau i gomisiynu nifer o wasanaethau cyffuriau ac alcohol yn ogystal â chynghorydd Annibynnol ar Drais Domestig. Un o'n prif brosiectau yw'r cynllun cartrefi diogelach sy'n targedu cartrefi dioddefwyr Cam-drin Domestig. Mae arian y Bartneriaeth hefyd yn ariannu gwasanaeth camddefnyddio sylweddau sy'n benodol ar gyfer plant a phobl ifanc ac sydd wedi'i leoli o fewn Barnardos. Mae'r rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Cymdeithasol yn datblygu agwedd teulu cyfan tuag at gefnogi. Bydd hyn yn integreiddio cymorth ar gyfer oedolion a phlant o dan IFSS (Gwasanaeth Integredig Cymorth i Deuluoedd) a fydd yn dechrau ym mis Ionawr 2014. Mae'r gwasanaeth wedi recriwtio ymwelydd iechyd, gweithiwr Cyffuriau ac Alcohol o'r maes Iechyd a Gweithiwr Cymdeithasol i Oedolion. Bydd y gwasanaeth yn canolbwyntio i ddechrau ar faterion cyffuriau ac alcohol. Mae ffrydiau gwaith amrywiol yn gweithio tuag at fynd i'r afael â cham-drin domestig, er enghraifft, y prosiect "10,000 o fywydau diogelach" a arweinir gan yr heddlu, a chodi ymwybyddiaeth i nodi a chefnogi staff sy'n dioddef camdriniaeth. Mae Polisi Camddefnyddio Sylweddau'r Gwasanaeth Ieuenctid wedi cael ei ddiwygio, cyn ymgynghori. Mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol hefyd yn bwriadu adolygu llochesau. Mae'r Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc yn gweithio ar brosiectau lleol - yn edrych ar atgyfeiriadau yn gynnar (ar y cyd â chymorth i ferched a'r heddlu). Mae MARAC wedi'i sefydlu i adolygu achosion sy'n cael eu hystyried yn ddifrifol. Mae gan Gonwy a Sir Ddinbych y nifer uchaf o atgyfeiriadau a bydd y rhesymau dros hyn yn cael eu hadolygu.	Oren

Sut fyddwn ni'n gwybod ein bod ni'n gwneud gwahaniaeth?

Cyf	Teitl	Canlyniad Canol Blwyddyn 12/13	Ein canlyniadau yn 12/13	Canol Blwyddyn	Targed 13/14	COG
M2.1	% yr achosion tipio anghyfreithlon a gliriwyd o fewn 5 diwrnod gwaith.	100%	98.6%	97.6%	97%	Gwyrdd
M2.2	Nifer y diwrnodiau glanhau a gefnogwyd ledled y fwrdeistref sirol bob blwyddyn	6	12	5	12	Oren
M2.3	% yr achosion o graffiti a lanhawyd o fewn 4 diwrnod gwaith	100%	100.0%	88.0%	89%	Oren

M2.4	Nifer y cosbau a roddwyd am faw cŵn	16	43	33	50	Gwyrdd
M2.5	Nifer y cosbau a roddwyd am ollwng sbwriel	9	799	1362	800	Gwyrdd

Hunanwerthusiad o'n perfformiad

Bu cynnydd da tuag at wireddu'r canlyniad ac mae cynlluniau newydd yn cael effaith gadarnhaol a chaiff hynny ei adlewyrchu yn y mesuryddion. Dylai lansio'r gwasanaeth integredig cymorth i deuluoedd ddangos gwelliant sylweddol yn ein dull o ystyried a chefnogi'r teulu cyfan i ymdrin â Cham-drin Domestig, materion Iechyd Meddwl a Chyffuriau ac Alcohol. Ond, ni ellir symud ymlaen i adolygu partneriaethau hyd nes y bydd canlyniad y Comisiwn Gwasanaethau Cyhoeddus ar gael. Mae'r canlyniad hwn yn ddibynnol iawn ar newid ymddygiad cymunedol a gall hynny fod yn broses hirdymor a bydd angen addysg cymunedol a chydweithrediad. Mae'r dull gweithredu partneriaeth yn allweddol felly er mwyn llwyddo ac mae rhai enghreifftiau da'n bodoli o weithio mewn partneriaeth.

Meysydd i'w gwella / datblygu

Mae angen i ni barhau i fynd i'r afael â baw cŵn a gollwng sbwriel, ond rydym yn rhagweld, fel y bydd ymddygiad yn newid, y bydd y nifer o gosbau a roddir yn gostwng. Mae systemau da ar waith ar gyfer gweithio ar y cyd wrth ddiogelu plant ac oedolion diamddiffyn. Rydym yn gweithio i ddatblygu Polisi Diogelu Corfforaethol i gynnwys recriwtio diogel.

Canlyniad 3 – Mae pobl yng Nghonwy'n byw mewn tai diogel ac addas

Ein Camau Gweithredu Blaenoriaeth

A3.1	**Gweithio mewn partneriaeth gyda Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig a phartneriaid eraill i atal digartrefedd lle bo hynny'n bosibl, ac i gefnogi pobl sy'n mynd yn ddigartref.**	**COG**
	Mae'r Prosiect Atebion Tai Conwy yn mynd rhagddo, ac ar hyn o bryd mae yn unol â'r targed i gael ei ddarparu gyda chyllideb y Gwasanaethau Rheoleiddio a Thai.	Oren
A3.2	**Trwy fabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol, mynd ati i roi'r Cynllun Tai Fforddiadwy ar waith[1] er mwyn darparu tai fforddiadwy i bobl leol.**	
	Mae'r CDLl newydd gael ei fabwysiadu, a bydd hwn yn awr yn cael ei ddefnyddio i benderfynu ar Geisiadau Cynllunio gan sicrhau bod y Polisi Tai Fforddiadwy o fewn y Cynllun Datblygu Lleol yn cael ei ddilyn. Mae'r cynllun Grant Cartrefi Gwag yn cynnig grantiau i berchnogion eiddo gwag tymor hir yn gyfnewid am sicrhau bod yr eiddo ar gael fel tai fforddiadwy am gyfnod y cytunwyd arno.	Oren
A3.3	**Parhau i gynnig Cynllun Morgais yr Awdurdod Lleol (LAMS) i helpu unigolion lleol sy'n prynu am y tro cyntaf i brynu eu cartref eu hunain.**	
	Mae'r cynllun wedi ei ohirio yng Nghymru gan fod trafodaethau cyfreithiol yn cael eu cynnal rhwng y sector a Swyddfa Archwilio Cymru i roi eglurder i statws cyllido'r cynllun. Ond, mae banciau'r stryd fawr yn awr yn cynnig blaendal o 5% ac felly mae'r Cynllun Cymorth i Brynu Cenedlaethol yn cael ei ddefnyddio i gyfeirio prynwyr am y tro cyntaf at fanciau sy'n cymryd rhan. Mae achos busnes i edrych ar fenthyca â chymorth amgen wedi cael ei gyflwyno. Felly, bydd angen adolygu'r cam gweithredu blaenoriaeth hwn.	Coch
A3.4	**Adolygu, a lle bod hynny'n briodol, cyflwyno'r drefn o drwyddedu HMOs trwy'r Sir er mwyn gwella safon y llety sydd ar gael.**	
	Mae'r broses o gyflwyno Ardaloedd Trwyddedu Ychwanegol Pensarn a Bae Colwyn wedi'i	Gwyrdd

[1] Tai Fforddiadwy yw tai a ddarperir ar gyfer pobl ar incwm is nad ydynt yn gallu cael tai addas yn y farchnad tai cyffredinol

	gwblhau bellach. Mae adolygiad wedi cael ei gynnal a chyfiawnhad yn amlwg i gyflwyno Cynllun Trwyddedu Ychwanegol HMO yn Llandudno a Chraig y Don. Ar hyn o bryd nid oes cyfiawnhad i gyflwyno'r cynllun mewn unrhyw ardaloedd eraill yn y Sir.	
A3.5	**Parhau i weithredu Strategaeth Cartrefi Gweigion Conwy er mwyn gwella'r amgylchedd ac er mwyn gwneud y defnydd gorau o'r stoc dai.**	
	Bydd gweithredu'r Strategaeth Cartrefi Gwag yn parhau ar sail barhaus, a byddwn yn canolbwyntio ar ddulliau rhagweithiol gyda pherchnogion tai gwag tymor hir. Rhoddir ystyriaeth hefyd i gychwyn camau gwerthu gorfodol yn erbyn un perchennog eiddo i adennill dyledion sy'n ddyledus i'r Awdurdod. Mae dau eiddo a gafodd eu gwella drwy'r cynllun grant Cartrefi Gwag bellach wedi'u meddiannu, ac mae traean wedi cael eu gosod. Mae 7 eiddo arall ar y rhestr fer i'w hystyried am grant, y disgwylir fydd yn defnyddio'r cyllid sy'n weddill. Mae achos busnes yn cael ei ddrafftio ar hyn o bryd am arian i sefydlu cynllun benthyciadau cartrefi gwag sy'n dwyn llog a fydd, os yn llwyddiannus, yn cefnogi'r rhaglen Llefydd Llewyrchus Llawn Addewid ym Mae Colwyn drwy dargedu anheddau gwag yn yr Ardal Prif Gynllun. Y gobaith yw y bydd y cynllun hwn yn darparu dewis arall ymarferol i gynllun benthyciadau Llywodraeth Cymru Troi Tai yn Gartrefi, sy'n cael ei gyflwyno ar draws y sir.	Oren
A3.6	**Parhau i weithio gyda phartneriaethau llifogydd i wella diogelwch a gwydnwch cymunedol a'r gallu i yswirio, a chodi ymwybyddiaeth y cyhoedd o faterion lifogydd fel eu bod yn barod i ddiogelu eu heiddo.**	
	Cynhaliwyd digwyddiadau i godi ymwybyddiaeth o lifogydd mewn pedair ardal ers 2013, ar y cyd â'n Diwrnodau Amgylcheddol misol, lle rhoddwyd cyngor a chanllawiau i drigolion ynglŷn â'r hyn y dylid ei wneud pe digwydd llifogydd a sut i amddiffyn eu heiddo rhag y llif. Gohiriwyd y digwyddiad ymwybyddiaeth llifogydd a gynlluniwyd ar gyfer Tywyn a Bae Cinmel ar gyfer Rhagfyr 2013 mewn partneriaeth ag NRW, DC a Fforwm Llifogydd Cenedlaethol oherwydd y costau cysylltiedig. Cynhaliwyd digwyddiad ymgynghori cyhoeddus ym mis Gorffennaf 2013 gyda thrigolion Cae Person, Llanrwst i rannu ein cynigion lliniaru llifogydd ar gyfer yr ardal. Mae gwaith amddiffyn yr arfordir 'cam 1b' wedi'i gwblhau ym Mae Colwyn, gyda gwaith gwella promenâd mynd rhagddo'n dda. Mae system rheoli asedau llifogydd ac amddiffyn yr arfordir wedi cael ei weithredu ac mae rhaglen gynnal a chadw amddiffynfeydd yr arfordir wedi cael ei ddyfeisio ac yn mynd rhagddo'n dda. Mae strategaeth risg llifogydd lleol wedi cael ei gyhoeddi ac mae'r gwaith o gyflwyno cynllun gweithredu ar y gweill. Mae strategaethau risg llifogydd lleol wedi cael eu cynhyrchu ar gyfer Cynghorau Ynys Môn, Sir y Fflint, a Sir Ddinbych.	Oren
A3.7	**Datblygu bidiau er mwyn cefnogi pobl i wella effeithlonrwydd ynni eu cartrefi.**	
	Mae gwaith effeithlonrwydd ynni Arbed 2 yn symud ymlaen ar gyfer Ardal Adnewyddu Gogledd Canol Bae Colwyn. Yn anffodus, roedd y cais Arbed 2 yn aflwyddiannus yn 2012/13 ar gyfer Cyffordd Llandudno. Bydd cais Arbed 2 yn cael ei gyflwyno ym mis Rhagfyr ar gyfer 2014/15.	Oren

Sut fyddwn ni'n gwybod ein bod ni'n gwneud gwahaniaeth?

Cyf	Teitl	Canlyniad Canol Blwyddyn 12/13	Ein canlyniadau yn 12/13	Canlyniad Canol Blwyddyn 13/14	Targed 13/14	COG
M3.1	Nifer y teuluoedd digartref a adleoliwyd yn llwyddiannus	37	77	60	100	Gwyrdd
M3.2	% yr aelwydydd oedd yn wynebu'r posibilrwydd o ddigartrefedd lle cafodd digartrefedd ei atal am o leiaf 6 mis	90.5%	91.7%	95.7%	87%	Gwyrdd
M3.3	Nifer yr unedau tai	Ffigwr blynyddol	14.97%	Ffigwr blynyddol	20%	

	fforddiadwy newydd a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn fel canran o'r holl unedau tai newydd yn ystod y flwyddyn					
M3.4a	Nifer ceisiadau'r Cynllun Morgais Awdurdod Lleol (CMALl)	12	32	0	Ni osodwyd targed	
M3.4b	Nifer y ceisiadau morgais a gwblhawyd	19	29	0	Ni osodwyd targed	
M3.5	% y Tai Amlfeddiannaeth y gellid eu trwyddedu sydd wedi eu trwyddedu	50%	54.0%	56.0%	65%	Gwyrdd
M3.6	% (nifer) anheddau'r sector breifat oedd yn wag am dros 6 mis a sy'n cael eu defnyddio unwaith eto	4.4% (48)	39 (3.58%)	Dim data	65	
M3.7	Nifer y digwyddiadau ymwybyddiaeth llifogydd a gynhaliwyd	7	11	Dim data	8	Gwyrdd
M3.8	Nifer y cartrefi sy'n derbyn cefnogaeth i wella effeithlonrwydd ynni	26	Dim data	Dim data	500	

Hunanwerthusiad o'n perfformiad

Mae cwblhau a chymeradwyo'r CDLl yn gyflawniad sylweddol. Bu cynnydd da gyda gwaith amddiffyn rhag llifogydd sydd wedi eu profi yn y tywydd stormus diweddar. Mae methiant y cynllun Arbed ar gyfer Cyffordd Llandudno yn siomedig ac fe wnawn ein gorau i wneud cais am unrhyw gynlluniau cyllido yn y dyfodol. Mae llawer o fesurau sy'n flynyddol ar gyfer y canlyniad hwn, ond mae'r rhai y gellir eu mesur canol blwyddyn yn dangos effaith gadarnhaol bod gan mwy o bobl sy'n byw yng Nghonwy fynediad at dai diogel a phriodol.

Meysydd i'w gwella / datblygu

Bydd Tai yn parhau i fod yn faes y bydd yr awdurdod yn canolbwyntio arno – yn enwedig o ystyried y pwysau economaidd parhaus ac effaith bosibl diwygio'r gyfundrefn les ar drigolion lleol. Rydym yn gweithio i wella perfformiad ar gyfer y nifer o anheddau sector preifat sydd wedi cael eu dychwelyd i feddiannaeth. O ystyried y newidiadau i'r cynllun LAM bydd angen i ni weithio i gyfeirio prynwyr am y tro cyntaf i opsiynau morgais eraill.

<u>Canlyniad 4 – Mae Pobl yng Nghonwy'n Iach ac yn Annibynnol</u>

A4.1	**Gweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill i adolygu'r dulliau o ddarparu Gofal Cymdeithasol a datblygu ystod o ddewisiadau cefnogi ar gyfer y rhai sydd angen cymorth i'w cadw'n annibynnol am gyhyd â phosibl.**	**COG**
	Gwnaed gwaith helaeth mewn perthynas â'r rhaglen hon gyda Phartneriaid Iechyd. Bydd sefydlu'r bwrdd Cyd Ardaloedd yn sicrhau llywodraethu ar ddatblygiadau o'r fath ac yn goruchwylio'r canlyniadau gofynnol ar gyfer cyflwyno'r cynllun iechyd a lles. Y bwriad yw y bydd y fforwm partneriaeth Cymunedol sydd newydd ei ffurfio yn goruchwylio gwaith ystod o	Oren

	brosiectau. Mae gwaith yn mynd rhagddo mewn perthynas â: Pwynt Mynediad Sengl, Gofal Iechyd Gwell / Gofal Canolraddol ac ail-alluogi (continwwm o wasanaethau), Diwedd Oes, Law yn Llaw at Iechyd Meddwl, Fframwaith ar gyfer Gweithredu a Byw Annibynnol.	
A4.2	**Cydnabod pwysigrwydd gofal anffurfiol, a gwella o ran adnabod pwy sy'n darparu'r gofal hwnnw a pha gymorth y mae arnynt ei angen i gyflawni'r swyddogaeth hollbwysig hon.**	
	Yn y gwasanaethau i oedolion, mae Swyddog Gofalwyr penodol yn cynorthwyo Gofalwyr yn eu rôl gofalu. Yn y pwynt cyswllt cyntaf yn y tîm gofal cwsmer, bydd gofalwyr yn cael eu hadnabod, yn cynnig asesiadau o anghenion ac yn cael gwybodaeth. Nid oedd timau arbenigol yn gallu cofnodi asesiadau gofalwyr yn uniongyrchol ar Paris, ond mae hyn bellach wedi cael ei gywiro.	Oren
A4.3	**Rhoi cynllun gweithredu 'Conwy Egnïol am Oes' ar waith i annog cyfleoedd i fyw bywydau iachach.**	
	Mae prosiectau Conwy Egniol am Oes yn datblygu'n dda. Mae'r prosiect nofio ysgol wedi ymgysylltu'n effeithiol ag ysgolion i newid eu darpariaeth nofio. Mae adolygiad o'r amserlen nofio wedi lleihau'r rhestr aros ar gyfer lefel 1 nofio. Mae'r prosiect 'Merched mewn Chwaraeon' yn parhau i ymgysylltu â merched yn eu harddegau er mwyn cynyddu cyfraddau cymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol. Mae'r holl gamau gweithredu allweddol eraill yn Conwy Egniol am Oes yn weithredol ac yn gweithio i ddarparu'r canlyniad o gynyddu cyfraddau cymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol.	Oren
A4.4	**Datblygu cynllun cludiant cymunedol lleol i helpu pobl i gael mynediad i wasanaethau hanfodol.**	
	Mae asesiad anghenion gwledig wedi cael ei gynnal gan STC Ltd a disgwyliwyd adroddiad terfynol erbyn canol mis Tachwedd 2013.	Oren

Sut fyddwn ni'n gwybod ein bod ni'n gwneud gwahaniaeth?

Cyf	Teitl	Canlyniad Canol Blwyddyn 12/13	Ein canlyniadau yn 12/13	Canlyniad Canol Blwyddyn 13/14	Targed 13/14	COG
M4.1	% y bobl hŷn sydd ddigon iach ar ôl 6 wythnos o ofal galluogi fel nad oes angen gofal arnynt bellach neu y gellir eu trosglwyddo i gynllun gofal llai dwys	64.6%	77.31%	84.8%	60%	Gwyrdd
M4.2a	Nifer y gofalwyr a nodwyd	amh	1227	776	1350	Gwyrdd
M4.2a	Nifer y canlyniadau i ofalwyr sydd wedi cael eu cyflawni'n llawn neu bron yn llawn	amh	Amherthnasol	131	Ni osodwyd targed	
M4.3	% ein hysgolion cynradd sy'n cyflawni'r safon Ansawdd Cenedlaethol ar gyfer Ysgolion Iach	Ffigwr blynyddol	5%	Ffigwr blynyddol	12%	
M4.4	% y rhai 11-16 oed sy'n gwneud ymarfer corff rheolaidd yn wythnosol drwy gymryd rhan yn y 'cynllun chwaraeon '5x60''		53%	58%	55%	Gwyrdd
M4.5	% y disgyblion sy'n gadael yr ysgol gynradd yn medru nofio i safon ddigonol sy'n cwrdd â meini	68%	68%	65%	80%	Coch

	prawf ‘dysgu nofio’					
Nid oedd data asesu ar gyfer holl ddisgyblion Blwyddyn 6 Conwy ar gael yn 2011/12 (dim data ar gael oddi wrth bwll nofio Abergele). 2012/13 oedd y flwyddyn gyntaf lle'r oedd canolfannau hamdden wedi asesu holl ddisgyblion Blwyddyn 6 yng Nghonwy. Cydnabyddir bellach bod cyfraddau cyrhaeddiad nofio yn sylweddol is mewn ysgolion sydd â lefelau uchel o brydau ysgol am ddim. Mae'r data a ddarparwyd eleni gan Bwll Abergele, ac sy'n berthnasol i ysgolion sy'n defnyddio Pwll Abergele ar gyfer gwersi, wedi cael effaith sylweddol yn y cyd-destun hwn. Mae ffocws y prosiect nofio wedi bod ar sicrhau bod ysgolion yn mynd â disgyblion i nofio yn iau (Blwyddyn 1 ymlaen). Bydd effaith y newid hwn yn amlwg yn 2013/14 ymlaen.						

Hunanwerthusiad o’n perfformiad

Bydd sefydlu'r Bwrdd Ardaloedd ar y Cyd yn galluogi gwell cyfathrebu a gweithio mewn partneriaeth gyda chydweithwyr yn y maes iechyd. Mae adolygiad o'n dull o gefnogi gofalwyr yn dangos canlyniadau cadarnhaol fel y mae ein dull o 6 wythnos o alluogi, sy'n cael ei dreialu ar hyn o bryd i bob defnyddiwr gwasanaeth, waeth beth yw’r cymhwysedd. Mae cyfranogiad pobl ifanc mewn ymarfer corff yn gwella, ond mae angen i ni wneud mwy i wella ein blaenoriaeth i sicrhau bod disgyblion yn gadael yr ysgol gynradd gyda sgiliau nofio da.

Meysydd i'w gwella / datblygu

Yn ogystal â gwella sgiliau nofio disgyblion, mae angen gwaith pellach i gwblhau'r cynllun trafnidiaeth cymunedol, ar y cyd â gwaith sy'n cael ei wneud yn rhanbarthol.

Canlyniad 5 - Mae pobl yng Nghonwy'n byw mewn sir sydd ag economi ffyniannus

A5.1	**Datblygu ein Strategaeth Digwyddiadau ar y cyd â budd-ddeiliaid allweddol er mwyn gwneud y defnydd gorau o’n hasedau allweddol e.e. chwaraeon dŵr, gweithgareddau awyr agored, digwyddiadau diwylliannol, Theatr Colwyn, Venue Cymru a Pharc Eirias.**	**COG**
	Y Strategaeth Ddigwyddiadau yw'r ddogfen allweddol ar gyfer sicrhau bod y canlyniad corfforaethol hwn yn cael ei gyflawni. Mae sefydlu Strategaeth wedi bod yn sylfaenol i’r llwyddiant rydym wedi’i gael gan ddenu nifer o ddigwyddiadau mawr o bwys, sydd wedi dod â manteision economaidd gwerthfawr i'r Sir. Ers 2010 rydym wedi denu digwyddiadau Pencampwriaeth Ewrop Golff Merched Cymru S4C, Rali Fest, Pencampwriaeth Rhedeg Mynydd a Thra Phell y Gymanwlad, dechrau swyddogol WRGB ddwy flynedd yn olynol, yn ogystal â cham arbennig ar y Gogarth. Llandudno 10, Taith y Fflam Olympaidd drwy'r Sir, Adain Avion, a’r digwyddiad cerddoriaeth mawr cyntaf yn Stadiwm Eirias, Access All Eirias. Mae digwyddiadau eraill wedi cynnwys Pencampwriaeth Golff Hŷn Cymru, Triathlon y Snowman, Gŵyl Gorawl, Cerdd Dant a 'The Eirias' - sef triathlon pellter hir ac, wrth gwrs, heb anghofio am y digwyddiadau Rygbi proffil uchel fel Cyfres yr IRB a Rygbi Dan 20 y mae gweithwyr Gwasanaeth Datblygu Cymunedol wedi’u sicrhau a’u cynnal yn llwyddiannus. Mae pob un o'r digwyddiadau gwych wedi gwella proffil yr ardal ar lefel ranbarthol, genedlaethol a rhyngwladol. Mae'r dadansoddiad o effaith economaidd sydd wedi cael ei wneud ar ddigwyddiadau allweddol yn dangos, am bob £1 a fuddsoddir, bod £12.47 yn dychwelyd i’r economi leol. Yn 2013 bu dau ddigwyddiad newydd: **Pencampwriaeth Rhedeg Llwybr y Byd sydd wedi dod i Sir Conwy oherwydd llwyddiant y digwyddiad CMUD.** Denodd y digwyddiad gystadleuwyr o 20 o wledydd. Pasiodd **Taith Prydain** trwy Ogledd Cymru ym mis Medi am y tro cyntaf. Gwnaeth y ddau ddigwyddiad ddefnydd o’r tirwedd wledig sy'n gadarnhaol iawn gan ein bod wedi bod yn ceisio denu digwyddiadau a all ddefnyddio nid y "potiau mêl" yn unig, fel Llandudno a Chonwy, ond hefyd ardaloedd allweddol eraill yn y Sir. Hefyd, cynhaliwyd digwyddiad	Gwyrdd

	dechrau a gorffen Pencampwriaeth Byd Rali Cymru GB mawreddog yn y Sir. Cynhaliwyd rhan ohono ar y Gogarth ac yng Nghoedwig Gwydir hefyd. Eto, mae defnyddio Gwydir yn bositif arall go iawn ar gyfer yr economi wledig yng Nghonwy. Mae CBSC yn parhau i fod â pherthynas waith ardderchog gyda nifer o bartneriaid ddigwyddiad allweddol ac mae ganddo hefyd enw da iawn am fod yn Sir a fydd yn cefnogi trefnwyr digwyddiadau i wneud y gorau o'r potensial ar gyfer digwyddiadau mawr. Cafodd hyn ei gydnabod yn ffurfiol yn 2013 pan enillodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wobr Trefnwyr Digwyddiad y Flwyddyn gan y Gymdeithas Genedlaethol Digwyddiadau Awyr Agored (NOEA). Hefyd, cawsom wobr 'Partneriaeth Cynhyrchu y Flwyddyn' ar y cyd ag Orchard, hyrwyddwr Access All Eirias. Bydd y gwaith yn dechrau ar gynhyrchu Strategaeth Ddigwyddiadau newydd ym mis Ionawr 2014 ond rydym yn parhau i weithio ar feysydd datblygu fel: **Datblygu sgiliau trefnydd digwyddiad - mewn partneriaeth â'r Prosiect Twristiaeth Awyr Agored rydym wedi cynnal cwrs hyfforddi Rheoli Traffig a Rheoli Iechyd a Diogelwch.** Rydym hefyd wedi cynnal cynhadledd NOEA Cymru yn Eirias. **Creu cronfa o wirfoddolwyr digwyddiad - yr ydym wedi bod yn gweithio'n agos gyda sefydliadau gwirfoddol a sefydliadau addysgol fel Coleg Llandrillo Cymru.** Rydym hefyd yn gweithio'n agos gyda Venue Cymru ac Eirias gan edrych ar eu staff achlysurol a thystiolaeth o hyn yw'r ffaith y rhyddhawyd aelod o staff Venue Cymru am dair wythnos i weithio'n agos gyda'r tîm i ddarparu Parc Gwasanaeth WRGB yng Nglannau Dyfrdwy. **Ehangu Pecyn Gwybodaeth Trefnydd Digwyddiadau – Rydym wedi bod yn gweithio'n agos gyda Grŵp Swyddogion Digwyddiadau Gogledd Cymru i lunio Pecyn Gwybodaeth Gogledd Cymru gyfan.** Mae hwn bron wedi'i gwblhau a bydd yn cael ei roi ar ein gwefan ym mis Ionawr fel canllaw cymorth i drefnwyr digwyddiadau. Mae Marchnata Corfforaethol yn gweithio gyda Venue Cymru ac Eirias i gynhyrchu deunyddiau sy'n marchnata asedau allweddol CBSC ar y cyd. Bydd y pecyn hyrwyddo yn cynnwys Venue Cymru, Theatr Colwyn, Eirias, Porth Eirias, y Ganolfan Fusnes a Glasdir. Mae ymagwedd ar y cyd â nawdd ar gyfer marchnata'r asedau hyn hefyd yn cael ei ddatblygu.	
A5.2	**Adolygu ein hymagwedd tuag at gaffael i gefnogi'r economi lleol.**	
	Mae'r gwaith datblygu ar Strategaeth Gaffael Gorfforaethol y Cyngor yn datblygu yn dda. Y nod yw ei gymeradwyo erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Mae'r cynllun gweithredu ar gyfer mabwysiadu Strategaeth Gaffael Gorfforaethol yn cael ei adolygu ar hyn o bryd o ganlyniad i ymholiadau ac awgrymiadau gan Uwch Reolwyr. Bydd y Strategaeth yn cael ei hadolygu pan fydd gwaith grŵp Rheolau Sefydlog Contractau y Cyngor wedi rhoi sylwadau. Bydd y Strategaeth yn sail i'r modd y mae Swyddogion ar draws y Cyngor yn cefnogi caffael moesol, yn enwedig ein hagwedd tuag at yr economi leol a rhaglen gynaladwyedd y Cyngor. Bydd sefydlu cofrestr contract corfforaethol, a arweinir gan gaffael a'i ddatblygu gyda chydweithrediad y tîm Gwe, yn ein galluogi i ddal cyfanswm gwariant y Cyngor gyda busnesau allanol. Bydd data allweddol yn ymwneud â'r amrywiaeth o gontractau a ddyfarnwyd, gan bob un o adrannau prynu'r Cyngor yn cael ei gofnodi yn y gofrestr ganolog. Bydd y gofrestr hefyd yn casglu ystadegau hanfodol am y nifer o gontractau sydd wedi'u rhoi i fusnesau lleol, yng Nghonwy, Gogledd Cymru, Cymru a thu hwnt. Y meysydd i'w gwella fydd hyrwyddo a chynnwys buddiannau cymunedol a chymalau cymdeithasol yn ein holl weithgarwch prynu a fydd hefyd yn cael eu cofnodi ar y gofrestr. Maes arall o welliant fydd y gallu i ddal contractau a ddyfernir drwy gytundebau Fframwaith. Mae amrywiaeth o gyfarfodydd datblygu cyflenwyr wedi galluogi adrannau prynu i hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer contractau, hyfforddiant, cymorth a chyngor. Mae gweithdai tendro wedi'u	Oren

	cynnal ar gyfer busnesau lleol ar y cyd â Busnes Cymru. Penodwyd i swydd y Rheolwr Datblygu Busnes a Menter. Mae'r Prosiect Cefnogi Busnes Conwy Wledig wedi cymeradwyo 14 o geisiadau grant yn y chwarter diwethaf yn unig, sef cyfanswm o £35,000. Mae £152,000 wedi'i ddyrannu hyd yn hyn. Mae Grant Busnesau Bach Conwy wedi cymeradwyo 49 o grantiau hyd yma yn ystod 13/14, gwerth £37,601 gydag amcangyfrif cyfanswm cost y prosiect o £95,238. Mae'r gronfa Buddsoddi Lleol hyd yn hyn eleni wedi cymeradwyo 11 o grantiau, gan ymrwymo £54,205 gyda chyfanswm cost prosiect o £152,175.	
A5.3	**Bod yn fwy rhagweithiol wrth gefnogi ac ymgysylltu â busnesau newydd, yn lleol ac yn rhanbarthol (gan gynnwys busnesau gwledig) er mwyn deall anghenion busnes, a gweithredu yn eu cylch pan fo hynny'n bosibl, a'u cefnogi i ymgeisio am gontractau busnes.**	
	Mae'r Cyfarwyddwr Strategol Economi a Lle a'r Pennaeth Adain (Busnes a'r Economi) wedi bod yn ymgysylltu â busnesau lleol. Bydd y broses hon yn cael ei chyflwyno ymhellach gan y Rheolwr Datblygu Busnes a Menter trwy ddatblygu rhaglen gwaith i'r dyfodol. Mae achos busnes cyfalaf wedi ei gyflwyno ar gyfer Grant Cefnogi Busnes Conwy 2014/15. Rydym yn parhau i gyflawni a thros perfformio yn ôl ein targedau ar gyfer y Rhaglen Cychwyn Busnes, cyngor busnes cyffredinol, y Gronfa Fuddsoddi Leol a Rhaglen Cefnogi Busnes Gwledig. Ar hyn o bryd mae gennym feddiannaeth lawn yn ein hunedau diwydiannol / masnachol. Mae Cylchlythyr Busnes chwarterol wedi'i ategu gan 'Newsflashes' yn cael ei anfon at yr holl fusnesau lleol ac rydym yn ymgysylltu â rhwydweithiau busnes a chlybiau.	Oren
A5.4	**Gwneud y gorau o gyfleoedd cyflogaeth sydd ar gael i breswylwyr Conwy mewn datblygiadau allweddol ar draws y rhanbarth.**	
	Rydym yn parhau i ddatblygu hyn trwy Grŵp Safleoedd Strategol sy'n cyd-lynu'r buddsoddiad strategol yn y sir. Mae'r CDLl wedi ei fabwysiadu, gan roi sicrwydd o gwmpas y safleoedd cyflogaeth strategol yn y sir. Bydd Goblygiadau Cynllunio Canllawiau Cynllunio Atodol rŵan yn cael eu mabwysiadu yn derfynol gan alluogi Conwy i ofyn am gyfraniadau ar gyfer sgiliau a hyfforddiant ar gyfer pobl leol.	Oren
A5.5	**Hyrwyddo rhagor o fewnfuddsoddiad.**	
	Integreiddio i raglen Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (NWEAB) a rhaglen Cyrchfan Gogledd Cymru. Hefyd Is-grwpiau Ynni a Gweithgynhyrchu Uwch y Bwrdd Uchelgais. Mae strategaeth farchnata mewnfuddsoddi ar gyfer Bywyd y Bae + wedi'i sefydlu. Rydym yn rhagweithiol yn hwyluso buddsoddiadau fel Surf Eryri. Trwy ddyfarniad grant cynllunio llwyddiannus Llywodraeth Cymru, mae Strategaeth Tir Cyflogaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru yn cael ei baratoi i ganolbwyntio ar hyrwyddo safleoedd a chyfleoedd buddsoddi rhanbarthol a lleol allweddol yng Nghonwy.	Oren
A5.6	**Gweithredu a chydlynu cynlluniau fel Cymunedau yn Gyntaf, Dechrau'n Deg a Theuluoedd yn Gyntaf i helpu teuluoedd i symud allan o dlodi.**	
	Mae'r Bwrdd Rhaglen Cymorth i Deuluoedd wedi bod yn datblygu fframwaith rheoli perfformiad ar y cyd ar gyfer y mentrau hyn ac wedi goruchwylio ymagwedd gydgysylltiedig tuag at asesiadau o anghenion a darparu prosiectau. Cynhaliwyd sesiwn ar y cyd rhwng darparwyr Teuluoedd yn Gyntaf, Cymunedau yn Gyntaf a Dechrau'n Deg ym mis Hydref 2013 i godi ymwybyddiaeth o'r mentrau ymysg staff rheng flaen. Mae Bwrdd Rhaglen Adeiladu Cymunedau Cydnerth a Threchu Tlodi wedi'i gadeirio gan y Prif Weithredwr wedi'i sefydlu a bydd yn cefnogi cydlynu'r rhaglenni Cymunedau yn Gyntaf, Dechrau'n Deg, Teuluoedd yn Gyntaf a'r Tîm o Amgylch y Teulu. Cwblhawyd ymarfer mapio o'r holl sefydliadau yn y sir sydd ar gael i ddarparu cefnogaeth lles a lansiwyd gwefan fel y gall bobl ddod o hyd i gymorth yn ôl cod post.	Oren

Sut fyddwn ni'n gwybod ein bod ni'n gwneud gwahaniaeth?

Cyf	Teitl	Canlyniad Canol Blwyddyn 12/13	Ein canlyniadau yn 12/13	Canlyniad Canol Blwyddyn 13/14	Targed 13/14	COG
M5.1a	Nifer y digwyddiadau mawr o bwys a gefnogir gan CBSC	4	5	5	5	Gwyrdd
M5.1b	Nifer y digwyddiadau cymunedol a gefnogwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy	12	25	13	25	Gwyrdd
M5.2	Nifer y twristiaid sy'n ymweld â Chonwy bob blwyddyn gan aros dros nos.	Ffigwr blynyddol	2,405,500	Ffigwr blynyddol	2.3 Miliwn	
M5.3	Nifer y twristiaid sy'n ymweld â Chonwy bob blwyddyn ar gyfer tripiau undydd.	Ffigwr blynyddol	5,571,800	Ffigwr blynyddol	6 Miliwn	
M5.4	% y contractau tendr CBSC a aeth i fusnesau Gogledd Cymru.	59.52%	52.94%	47.20%	Ni osodwyd targed	
M5.5	Nifer y busnesau a gefnogwyd i wneud cais am gontractau, hyfforddiant, ariannu neu a gafodd gymorth i gydymffurfio â gofynion polisi newydd.	208	136 (342 gan gynnwys cydgyfeiriant)	2.70%	65	Gwyrdd
M5.6	Nifer y swyddi a gafodd eu creu neu eu hamddiffyn trwy hwyluso cymorth ariannol.	230.5	207.5 (453.5 gan gynnwys cydgyfeiriant)	5.40%	38	Gwyrdd
M5.7	% y plant sy'n byw mewn tlodi (lle bo incwm yr aelwyd yn is na 60% o incwm cyfartalog Prydain).	Ffigwr blynyddol	19.8%	40.50%	Ni osodwyd targed	

Hunanwerthusiad o'n perfformiad

Bu cynnydd da wrth ddatblygu'r cyfeiriad strategol ar gyfer datblygu economaidd ar lefel sirol, rhanbarthol ac Ewropeaidd ac rydym yn gwella ein cyfathrebu gyda busnesau lleol. Cynhaliwyd nifer o ddigwyddiadau proffil uchel sydd wedi rhoi Conwy 'ar y map' ac sydd wedi cefnogi gwariant gan dwristiaid o fewn y sir. Nid yw'r economi yn rhywbeth sydd yn gyfan gwbl o fewn rheolaeth yr Awdurdod Lleol, ond mae cynnydd cadarnhaol gyda chyfraddau diweithdra lleol fel yr amlinellir yn y tabl isod. Ond, er bod diweithdra wedi gostwng yng Nghonwy, o'i gymharu â Chymru gyfan, mae ein hadferiad yn arafach o gymharu'r cyfraddau â chyfraddau mis Medi 2012.

	Nifer y di-waith yng Nghonwy	Cyfradd diweithdra CBS	Diweithdra Cymru	Diweithdra Prydain

Mawrth 2011	2,561	**3.8**	3.9	3.7
Mawrth 2012	2,741	4.0	4.3	4.0
Medi 2012	2,540	3.8	4.1	3.7
Mawrth 2013	2,791	4.1	4.2	3.8
Medi 2013	2,387	3.5	3.5	3.2

Meysydd i'w gwella / datblygu

Mae'r Strategaeth Gaffael yn symud ymlaen ac mae ar y trywydd iawn i'w gwblhau erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Mae cymorth i fusnesau lleol yn faes sy'n dibynnu ar arian grant allanol ac nid yw felly bob amser o fewn ein rheolaeth, ond rydym yn gweithio i wneud y gorau o gyllid lle bo hynny'n bosibl. Mae cyfle pellach i ddatblygu budd cymunedol a chymalau cymdeithasol trwy adolygu'r strategaeth gaffael sydd ar hyn o bryd yn cael ei datblygu. Dylai datblygiad Bwrdd Rhaglen Adeiladu Cymunedau Gwydn a Threchu Tlodi alluogi ymagwedd strategol wedi'i chydlynu i fynd i'r afael â'r rhaglen dlodi.

Canlyniad 6 – Mae pobl yng Nghonwy'n byw mewn amgylchedd cynaliadwy

Ein Camau Gweithredu Blaenoriaeth

A6.1	**Parhau i gynnal, gwella a rhoi cyhoeddusrwydd i ansawdd ein gwarchodfeydd natur, ein traethau a'n parciau.**	**COG**
	Rydym wedi cyflawni 9 o Faneri Gwyrdd, gan gynnwys 1 ar gyfer Parc Gwledig y Gogarth. Rydym wedi cyflawni 2 Wobr Cymru yn ei Blodau ar gyfer Bae Colwyn (1af a haen arian) a Llandudno (gilt arian): a gilt arian ar gyfer Bae Colwyn ym Mhrydain yn ei Blodau. Rydym hefyd wedi ennill 4 gwobr Cymdogaeth RHS. Mae tudalen gwe bellach wedi'i chreu sy'n ymroddedig i hyrwyddo traethau'r Sir. Bydd y dudalen yn cael ei diweddaru bob blwyddyn gyda manylion statws gwobr y traeth. Mae mapiau a manylion y cyfleusterau sydd ar gael ar bob traeth.	Gwyrdd
A6.2	**Rhoi'r strategaeth ar waith yn y Fwrdeistref Sirol i fynd i'r afael â safleoedd sy'n 'ddolur llygad'.**	
	Mae dau safle blaenoriaeth wedi cael eu tynnu oddi ar y gofrestr yn ystod hanner cyntaf y Flwyddyn. Mae gwaith yn parhau ar y tu mewn i'r Llew Du yng Nghonwy, ond o safbwynt eiddo hyll, mae'r gwaith allanol wedi'i gwblhau.	Oren
A6.3	**Gweithredu Cynllun Rheoli Carbon i ostwng gollyngiadau carbon y Cyngor.**	
	Mae llawer iawn o waith y mae angen ei wneud i wella ein perfformiad gollyngiadau carbon, ond mae gwaith paratoadol yn mynd rhagddo. Mae pob prosiect yn y CRhC rŵan wedi'u cychwyn a'r arweinwyr prosiect wedi'u cadarnhau. Mae'r strwythur llywodraethu ar gyfer y rhaglen wedi cael ei adolygu, gyda'r aelodaeth tîm prosiect ar ei newydd wedd a chyfarfodydd tîm prosiect bob pythefnos ar waith i fonitro cynnydd yn agos. Mae gwaith uwchraddio goleuadau wedi cael ei wneud mewn 49 o safleoedd. Mae'r prosiect Ysgolion Carbon Isel yn awr yng ngham 2, lle mae 12 ysgol ynghlwm â gwella eu perfformiad ynni. Mae cais am gyllid wedi cael ei baratoi i osod gyriannau cyflymder amrywiol mewn 3 canolfan hamdden a chywiro ffactor pŵer ym mhwll nofio Llandudno fel rhan o'r prosiect Rheoli Pŵer. Mae gan 175 o safleoedd bellach fesuryddion smart ac mae dewisiadau yn cael eu hystyried ar hyn o bryd ar gyfer y safleoedd sy'n weddill lle nad oes rhwydwaith. Mae cwmpas y gwaith yn cael ei baratoi ar gyfer comisiynu system rheoli adeiladu ar gyfer Canolfan Hamdden Eirias. Rydym yn parhau i wirio a yw cyfrifiaduron yn cael eu gadael ymlaen bob nos ac os ydynt,	Oren

	anfon e-bost at y defnyddiwr i roi gwybod iddynt y dylent ddiffodd eu cyfrifiadur personol os ydynt yn gadael am unrhyw gyfnod o amser. Yr ydym yn awr yn prynu gwneuthuriad a model newydd o gyfrifiadur sydd 53% yn fwy effeithlon o ran ynni na'n model blaenorol. Rydym yn cyflenwi defnyddwyr cyfrifiaduron gyda phlygiau deallus (am ddim) sy'n canfod pan fydd y cyfrifiadur yn cael ei ddiffodd ac yn diffodd yr holl ategolion. Rydym yn defnyddio dull rhithwir o leihau nifer y gweinyddion corfforol i leihau'r defnydd o ynni ac rydym yn rhesymoli argraffwyr ac yn cynghori cleientiaid i ddefnyddio dyfeisiau aml-swyddogaeth effeithlon.	
A6.4	**Gweithredu'r System Reolaeth Amgylcheddol a elwir yn 'Y Ddraig Werdd'. Cynlluniwyd y safon hon i hyrwyddo rheolaeth dda o'r amgylchedd o fewn sefydliadau. Mae 5 lefel i'w cyflawni – a 5 yw'r safon uchaf.**	
	Mae Draig Werdd Lefel 4 wedi'i gyflawni gan yr awdurdod cyfan. Rydym rŵan yn gweithio tuag at lefel 5.	Gwyrdd
A6.5	**Parhau i archwilio manteision technoleg newydd o safbwynt arbed costau ac amser er mwyn moderneiddio'r ffordd rydym yn gweithio.**	
	Mae Rhaglen Trawsnewid Busnes wedi'i sefydlu i gydlynu prosiectau TG. Ar hyn o bryd rydym yn adolygu dull y rhaglen hon o ailddiffinio'r ffrydiau gwaith. Rydym yn ymchwilio i weithio mewn modd hyblyg / rhannu desgiau ac adolygu offer priodol i ganiatáu i staff wneud eu gwaith o leoliadau lluosog. Dechreuodd cynllun peilot yn Ffordd Dinerth i brofi gweithio mewn modd hyblyg a gweithio cynllun agored. Mae iTrent bellach wedi dechrau Cam 2 a staff wedi symud i e-slipiau cyflog. Mae'r prosiect O Brynu Hyd Dalu heb reolwr prosiect ar hyn o bryd, ond mae wedi cwblhau gwaith gyda gwasanaethau ym Modlondeb ac yn mynd rhagddo i gyflwyno i Ffordd Dinerth. Mae EDM hefyd yn datblygu prosiectau cam 2 ond wedi dioddef rhai materion capasiti oherwydd salwch tymor hir. Mae'r capasiti ar gyfer y prosiect hwn wrthi'n cael ei adolygu. Mae'r prosiect archebu ar-lein Gladstone ar gyfer gwasanaethau hamdden yn dechrau trwy gynllun peilot gydag un canolfan hamdden. (Gweler hefyd y diweddariad dan GA2)	Oren
A6.6	**Lleihau'r gwastraff a anfonir i safleoedd tirlenwi a chwrdd â'n targedau ailgylchu statudol**	
	Mae gwastraff sy'n cael ei ailddefnyddio, ei ailgylchu a'i gompostio yn 58%, sy'n rhagori ar y targed statudol ar gyfer 2014/15. Mae gwastraff i safleoedd tirlenwi hefyd wedi lleihau ac yn parhau i fod ymhell o dan y lwfans tirlenwi a ddyrannwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y 7 mlynedd nesaf.	Gwyrdd

Sut fyddwn ni'n gwybod ein bod ni'n gwneud gwahaniaeth?

Cyf	Teitl	Canlyniad Canol Blwyddyn 12/13	Ein canlyniadau yn 12/13	Canlyniad Canol Blwyddyn 13/14	Targed 13/14	COG
M6.1	Nifer y traethau sy'n derbyn gwobrau arfordirol	Ffigwr blynyddol	11	Ffigwr blynyddol	11	
M6.2	Nifer y parciau a'r gwarchodfeydd natur gyda statws Baner Werdd	Ffigwr blynyddol	8	Ffigwr blynyddol	8	
M6.3	Canlyniadau mynegai glendid	75	76.14	79.9	77	Gwyrdd
M6.4a	Nifer y safleoedd a nodwyd sy'n 'ddolur llygaid'	46	43	47	Ni osodwyd targed	
M6.4b	Nifer y safleoedd a nodwyd sy'n 'ddolur i'r llygaid' a gafodd eu gwella	21	29	9	Ni osodwyd targed	
M6.5	% y gostyngiad mewn allyriadau carbon gan Gyngor	0%	2.98%	-9%	15%	Coch

	Bwrdeistref Sirol Conwy					
Mae prosesau adrodd yn y gwasanaeth AFfCh newydd yn dal i ddatblygu ac mae'r ffigwr hwn ar hyn o bryd ond yn cynnwys lleoliadau'r prif swyddfeydd. Mae cynnydd yn cael ei wneud yn erbyn y dangosydd perfformiad hwn, er ar gyfradd arafach na'r targed cychwynnol.						
M6.6	Nifer ysgolion Conwy sydd wedi cael Gwobr Arian Eco-Ysgol[2]	36	48	58	52	Gwyrdd
M6.7	% y gwastraff bwrdeistrefol a ailgylchwyd, a ailddefnyddiwyd neu a gompostiwyd	58%	56.4%	57.8%	58%	Oren
M6.8	% y gwastraff bwrdeistrefol a gasglwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a anfonwyd i safle tirlenwi	41%	43.4%	42.1%	42%	Oren

Hunanwerthusiad o'n perfformiad

Mae tystiolaeth dda o welliant sy'n cael ei gydnabod drwy gyflawni'r ddraig werdd a'r baneri niferus yr ydym wedi'u cyflawni. Mae cynlluniau ar waith i wella ein gollyngiadau carbon ymhellach. Y mesur glendid fu ein canlyniad gorau ers i'r mynegai ddechrau. Ceir cysylltiadau clir rhwng glendid yr ardal a lefel y troseddu a thwristiaeth felly mae hwn yn ganlyniad cadarnhaol iawn.

Meysydd i'w gwella / datblygu

Mae angen gwaith pellach i fynd i'r afael â'r targedau carbon, ond rydym yn hyderus y bydd y llywodraethu a ailddiffiniwyd a threfniant rheoli prosiect yn dangos gwelliant. Byddwn yn parhau i weithio i gwrdd â thargedau cenedlaethol i gynyddu ailgylchu a lleihau faint o wastraff sy'n cael ei anfon i safleoedd tirlenwi. Rydym yn gweithio i adolygu'r ffrydiau gwaith Rhaglen Trawsnewid Busnes.

Canlyniad 7 - Mae pobl yng Nghonwy yn byw mewn sir lle mae treftadaeth, diwylliant a'r iaith Gymraeg yn ffynnu

Ein Camau Gweithredu Blaenoriaeth

A7.1	**Hyrwyddo manteision siarad Cymraeg a gwneud gwaith i fynd i'r afael â'r canfyddiadau a'r rhwystrau rhag dysgu Cymraeg.**	**COG**
	Mae Strategaeth Cymru Conwy ar gyfer ysgolion wedi cael ei ddatblygu gan y Gwasanaeth Addysg yn dilyn argymhellion gan Lywodraeth Cymru. Mae'r grant Conwy wedi cael ei gyflwyno i'r Consortiwm sydd wedi ei gymeradwyo a'i anfon ymlaen i Lywodraeth Cymru. Mae fforwm lleol wedi cael ei ddatblygu sy'n monitro canlyniadau'r strategaeth bob hanner tymor. Hyd yma mae canlyniad 1 a 2 y strategaeth wedi cael ei adolygu i wneud argymhellion pellach. Rydym hefyd yn gweithio i hybu'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle. Mae llawer o gynlluniau ar y gweill i helpu i gyflawni'r cam gweithredu hwn fel safle mewnrwyd bychan newydd, cortyn gwddw Iaith Gwaith, a hyrwyddo cyrsiau iaith Gymraeg a chyrsiau gloywi. Un o themâu Gwella Conwy 2013 oedd i ymchwilio i ffyrdd y gallwn wella'r defnydd o'r Gymraeg o fewn y Cyngor.	Oren

[2] Mae'r rhaglen Eco Ysgolion yn gynllun rhyngwladol sy'n annog disgyblion i gymryd rhan mewn materion amgylcheddol a datblygu cynaliadwy e.e. Sbwriel, Lleihau Gwastraff, Cludiant, Byw yn Iach, Ynni, Dŵr, Tir Ysgol a Dinasyddiaeth Byd Eang.

	Mae mwy na 186 o unigolion wedi mynychu cyrsiau Cymraeg yn Nant Gwrtheyrn drwy Brosiect Cydweithredu Cynllun Datblygu Gwledig 'Mentrau Iaith y Gogledd'.	
A7.2	**Cefnogi rhagor o ysgolion cynradd i ddysgu o leiaf 25% o'r cwricwlwm trwy gyfrwng y Gymraeg.**	
	Yn y flwyddyn ariannol 2013/14 mae'r gwasanaeth ar y trywydd iawn i sicrhau bod 14 o ysgolion yn addysgu 25% trwy gyfrwng y Gymraeg.	Gwyrdd
A7.3	**Gweithredu Cynllun Cyrchfan Conwy a Strategaeth Twristiaeth Treftadaeth ar y cyd â phartneriaid lleol er mwyn denu ymwelwyr i ardaloedd o ddiddordeb nad ydynt mor adnabyddus.**	
	Mae Cynllun Rheoli Cyrchfan Conwy wedi cael ei adolygu ac mae adroddiad ar yr hyn a gyflawnwyd hyd yma wedi cael ei gyhoeddi. Mae Cynllun Rheoli Cyrchfan Conwy newydd yn cael ei ddrafftio. Mae'r Gwasanaethau Rheoleiddio a Thai yn parhau i weinyddu'r cynllun Grant Adeiladau Hanesyddol mewn cydweithrediad â Cadw sydd hefyd yn cyfrannu tuag at adfer ac adnewyddu adeiladau hanesyddol yn y Sir Mae'r Prosiect Tywysogion Gwynedd wedi cyflawni'r rhan fwyaf o'i ganlyniadau, gyda chanolfannau arddangos, gwefan a ffilm yn cael eu cynhyrchu i hyrwyddo'r cyfnod hwn yn hanes Cymru: gellir gweld y rhain ar youtube http://youtu.be/ypHCdCpKgzg. (Cymraeg - http://youtu.be/MBH2JkC-wus) Cynhaliwyd lansiad Tywysogion Gwynedd yn Craflwyn, Beddgelert ar 14 Hydref, 2013. Agorwyd y Porth i Dywysogion Gwynedd yn Adeilad Muriau, Conwy sy'n cynnwys deunydd dehongli digidol. Cynhaliwyd digwyddiad Stiwdios Agored Helfa Gelf yng Nghonwy ar benwythnos 20 – 22 Medi, 2013. Agorodd 42 stiwdio eu drysau ac roedd hwn yn gyfle unigryw i gael profiad o'r byd cyfrin hwn ac i sgwrsio gyda'r artistiaid am eu prosesau creadigol a'u mannau stiwdio. Mae amrywiaeth eang o stiwdios sy'n amrywio o siediau gardd i orielau.	Gwyrdd

Sut fyddwn ni'n gwybod ein bod ni'n gwneud gwahaniaeth?

Cyf	Teitl	Canlyniad Canol Blwyddyn 12/13	Ein canlyniadau yn 12/13	Canlyniad Canol Blwyddyn 13/14	Targed 13/14	COG
M7.1a	% y disgyblion sy'n cyflawni Lefel 4 neu uwch mewn Cymraeg Ail Iaith yng Nghyfnod Allweddol 2	68.7%	68.7%	Ffigwr blynyddol	70%	
M7.1b	% y disgyblion sy'n cyflawni Lefel 5 neu uwch mewn Cymraeg Ail Iaith yng Nghyfnod Allweddol 3	70.9%	70.9%	Ffigwr blynyddol	74.9%	
M7.2	Nifer y digwyddiadau y mae'r Gwasanaeth Ieuenctid yn eu cynnal sy'n hyrwyddo Diwylliant Cymru	24	19	5	43	Coch
Bydd cynnydd sylweddol yn y maes hwn oherwydd cafwyd cyllid ar gyfer y prosiect Cŵl Cymru. Rydym yn anelu at 110 o sesiynau gwaith ieuenctid newydd sy'n cynnwys 3 cyfle preswyl/ sioe						

gelf ac arddangosfa ffotograffig.						
M7.3	Nifer yr ysgolion Cynradd Cymraeg Ail Iaith sy'n addysgu mwy na 25% o'r cwricwlwm trwy gyfrwng y Gymraeg	12	12	Ffigwr blynyddol	14	
M7.4	Nifer y cynlluniau dehongli newydd a ddatblygwyd drwy'r Strategaeth Twristiaeth Treftadaeth	1	7	4	13	Gwyrdd
M7.5	% yr ymwelwyr a ddaeth yn bennaf i ymweld â henebion/safleoedd archeolegol	Ffigwr blynyddol	Dim arolwg	Ffigwr blynyddol	30%	

Hunanwerthusiad o'n perfformiad

Mae cwblhau Cynllun Cyrchfan Conwy yn gyflawniad allweddol a dylai lansiad y prosiect Tywysogion Gwynedd gynyddu'n sylweddol y nifer o ymwelwyr i ardaloedd twristiaeth llai adnabyddus yn y Sir. Mae'r prosiect hwn yn enghraifft wych o'r cyfoeth Diwylliant Cymreig sydd gan y sir i'w gynnig. Mae'r timau Diwylliant a Hamdden, y Gwasanaeth Ieuenctid a'r Uned Iaith yn cydweithio i wella sut y caiff hyrwyddo'r Gymraeg ei gydlynu o fewn y cyngor. Ond mae'r perfformiad presennol ar gyfer digwyddiadau'r gwasanaeth ieuenctid yn is na'r targed ac mae angen iddo wella. Mae arian grant wedi cael ei roi o'r neilltu ar gyfer 2013/14 a 2014/15 i wella perfformiad a byddwn yn mynd ar ofyn ein partneriaid i'n cynorthwyo i gyflawni'r gwaith hwn.

Meysydd i'w gwella / datblygu

Rydym yn aros am lansiad ffurfiol Safon Iaith Gymraeg newydd Llywodraeth Cymru, ond mae gweithgor, dan gadeiryddiaeth y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol yn datblygu'r cynllun gweithredu iaith Gymraeg 'Mwy na Geiriau' ar gyfer y Gwasanaethau Cymdeithasol. Yn ystod 2013-14, gobeithiwn y bydd modd i ni fanteisio ar wefan a ddatblygwyd gan Lywodraeth Cymru, gyda chefnogaeth CBAC.
Byddwn yn gweithio i gynyddu nifer y staff sy'n mynychu cyrsiau Ymwybyddiaeth Iaith ac yn parhau â'r gwaith o godi ymwybyddiaeth o'r Cynllun Iaith ac o sicrhau fod pob un o staff y Cyngor yn cydymffurfio â'r gofynion hyn. Mae ffurflen gais newydd wrthi'n cael ei datblygu a fydd yn cyfeirio at lefel sgiliau yn y Gymraeg.

Canlyniad 8 – Mae pobl yng Nghonwy'n cael gwybodaeth, yn cael eu cynnwys ac yn cael llais

A8.1	**Datblygu ein strategaeth ymgysylltu yn unol â'r Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru[3] er mwyn gwella ein dull gweithredu a sicrhau safon dda o ymgysylltu â chymunedau. Nod yr Egwyddorion yw ei gwneud yn haws i bobl gymryd rhan mewn gweithgareddau amserol, heb jargon i ddylanwadu ar ddatblygiadau'r Cyngor a sicrhau fod pobl yn clywed beth yw effaith eu cyfraniad.**	**COG**
	Cyflwynwyd y strategaeth ymgysylltu â'r cyhoedd i'w chymeradwyo ym mis Rhagfyr 2013. Bydd y strategaeth hon yn annog defnydd uwch o dystion arbenigol.	Oren
A8.2	**Sicrhau bod Aelodau Etholedig a Chynghorau Tref a Chymuned yn hwyluso**	

[3] I gael rhagor o wybodaeth ewch i www.participationcymru.org.uk/principles

	rhannu gwybodaeth ac yn helpu cymunedau lleol i leisio eu barn.	
	Rydym yn y broses o gaffael datrysiad gwe-ddarlledu er mwyn darlledu rhai o'n cyfarfodydd cyhoeddus ar y rhyngrwyd. Mae dau ddeg saith o'r tri deg tri cyngor cymuned wedi derbyn y cynnig o grant i helpu i ddatblygu eu gwefannau. Cynhaliwyd hyfforddiant yn y cyfryngau cymdeithasol ar gyfer Aelodau i annog defnydd priodol o ymgysylltu drwy gyfryngau cymdeithasol. Mae pymtheg o'r pum deg naw Aelod wedi cynhyrchu Adroddiadau Blynyddol yn 2012/13. Rydym yn datblygu Protocol Ymgysylltu â'r Cyhoedd ar gyfer Pwyllgorau Craffu.	Oren
A8.3	**Datblygu rhaglen cwsmeriaid i gydlynu'r amrywiol brosiectau cwsmer sydd gennym er mwyn gwella ein hagwedd at wasanaeth i gwsmeriaid.**	
	Mae prosiectau a llif gwaith yn parhau er bod y graddfeydd amser wedi llithro mewn rhai meysydd, e.e. cymerodd y Siarter Cwsmeriaid hirach i'w gwblhau na'r disgwyl, ond mae bellach wedi'i gyflwyno ar gyfer ymgynghori allanol. Mae'r gwasanaeth archebu ar-lein Gladstone ar gyfer y gwasanaethau Hamdden wedi dechrau ei gynllun peilot. Mae dangosyddion Gwasanaeth Cwsmeriaid wedi cael eu datblygu, ond gellir dim ond adrodd yn flynyddol. Cafwyd ailachrediad Rhagoriaeth Gwasanaeth gan y Gwasanaeth Amgylchedd a'r Gwasanaeth Refeniw a Budd-daliadau. Mae'r gwaith o ddatblygu rhaglen gwaith i'r dyfodol ar gyfer y cyngor cyfan yn dal i gael ei ddatblygu.	Oren
A8.4	**Gweithredu'r 5 cynllun ardal er mwyn gwella gwasanaethau cymunedol lleol. Mae cynlluniau ardal wedi cael eu datblygu gyda chymunedau ledled y fwrdeistref sirol ac maent yn blaenoriaethu'r gwaith y mae'r cymunedau lleol wedi dweud eu bod eisiau ei weld yn cael ei wella yn eu hardal.**	
	Hyd yma mae'r holl brosiectau ar draws y 5 ardal wedi eu cyfuno i mewn i 1 Cynllun Ardal gyda rhai prosiectau yn cael eu hailddrafftio a phob prosiect a gwblhawyd wedi'u dileu. Mae'r gwaith o ailddrafftio'r cynllun ardal bron wedi'i gwblhau, a rhagwelir y bydd y cynllun Ardal newydd yn cael ei lansio ar amser ym mis Ebrill 2014. Bydd hyn yn sail i elfen Strategaeth Datblygu Lleol Conwy a Arweinir gan y Gymuned o'r Cronfeydd Buddsoddi a Strwythurol yr UE yr ydym yn ceisio eu defnyddio i wneud y gorau o gyllid.	Oren
A8.5	**Gweithredu ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol i sicrhau bod pawb yn cael eu trin yn ôl eu hanghenion.**	
	Mae cynnydd da yn cael ei wneud gyda gweithredu Cynllun Cydraddoldeb Strategol. Mae adroddiad cynnydd Blwyddyn 1 wrthi'n cael ei ddrafftio ar hyn o bryd. Nodwyd 86 o gamau gweithredu ar gyfer Blwyddyn 1 y Cynllun Cydraddoldeb Strategol. Mae 74 o'r camau gweithredu hynny wedi cael eu cwblhau ac yn mynd rhagddynt. Mae hyn yn cyfateb i gwblhau 86% o'r camau gweithredu. Mae 10 cam gweithredu pellach (12%) yn mynd rhagddynt yn dda i'w cwblhau ac nid yw 2 gam gweithredu (2%) wedi eu cychwyn eto, yn bennaf o ganlyniad i adnoddau cyfyngedig.	Oren

Sut fyddwn ni'n gwybod ein bod ni'n gwneud gwahaniaeth?

Cyf	Teitl	Canlyniad Canol Blwyddyn 12/13	Ein canlyniadau yn 12/13	Canlyniad Canol Blwyddyn 13/14	Targed 13/14	COG
M8.1	% y gwasanaethau rheng flaen sy'n cyrraedd Safon Rhagoriaeth Cwsmeriaid	24.00%	25.4%	25.4%	23.73%	Gwyrdd
M8.2	Nifer y trafodion ar-lein bob blwyddyn	8,467	16,922	10,207	18,500	Gwyrdd
M8.3a	Canran y cwynion y llwyddwyd i'w datrys yng ngham 1	80%	89.0%	87.0%	85%	Gwyrdd

M8.3b	Nifer y cwynion a dderbyniwyd	246	538	324	565	Gwyrdd
M8.4	Nifer yr achosion o gamweinyddu a gadarnhawyd gan yr Ombwdsmon	0	0	0	0	Gwyrdd
M8.5	% defnyddwyr ein gwefan sy'n fodlon â'r wefan	63%	64.6%	67.0%	70%	Oren
M8.6	Nifer yr eitemau y gofynnwyd i'r Cyngor graffu arnynt a gyflwynwyd gan Gynghorydd ar ran y cyhoedd	7	10	2	Ni osodwyd targed	
M8.7	% camau gweithredu'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol a gwblhawyd a ddylai fod wedi'u cwblhau yn y flwyddyn ariannol flaenorol	Ffigwr blynyddol	86.0%	Ffigwr blynyddol	100%	

Hunanwerthusiad o'n perfformiad

Mae gan y Cyngor nifer o fecanweithiau er mwyn cynnwys y cyhoedd, gan gynnwys ymgynghoriadau, y cyfryngau cymdeithasol, y wefan, mynychu cyfarfodydd cyhoeddus, y Bwletin, arolygon o fodlonrwydd cwsmeriaid, trwy gyfrwng eu cynghorydd sir a thrwy gyfrwng nifer o fforymau gyda phobl ifanc, cynghorau tref a'r sector gwirfoddol. Rydym yn gweithio tuag at wella'r prosesau hyn er mwyn cynnal eglurder a chynyddu hygyrchedd. Rŵan bod y strategaeth ymgysylltu wedi'i gymeradwyo, gallwn ddechrau ar waith i wneud y gorau o'r adborth a gawn gan drigolion

Meysydd i'w gwella / datblygu

Bu cynnydd da i ddatblygu gwe-ddarlledu ac rydym yn y broses o osod system rheoli cyswllt newydd ar gyfer ein gwefan a ddylai wella ein gallu i reoli'r wefan a rhyngwynebu gyda rhaglenni eraill.
Mae gwaith wedi dechrau i wella sut yr ydym yn dadansoddi cwynion a chanmoliaeth er mwyn rhannu arfer da a dysgu o'r meysydd hynny y mae angen eu gwella. Mae angen gwneud gwaith pellach i sicrhau ein bod yn cofnodi cwynion a chanmoliaeth yn gywir ac yn eu prosesu mewn modd amserol.

Camau Blaenoriaeth Cyffredinol (Effeithlon ac wedi'u Rheoli'n Dda)

GA1	**Byddwn yn ceisio gwella ein gwasanaethau a chyrraedd ein targedau arbedion trwy foderneiddio'r ffordd rydym yn gweithio**	**COG**
	Mae gan y cyngor nifer o raglenni moderneiddio strategol ar waith, sef moderneiddio'r Gwasanaethau Cymdeithasol ac integreiddio'r Gwasanaeth Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau newydd yn ogystal â moderneiddio'r gwasanaeth llyfrgell. Hefyd, mae nifer o brosiectau moderneiddio yn cael eu cynnal mewn gwasanaethau – mae crynodeb o'r rhain isod:	Oren

	• Mae porth hunan wasanaeth desg gwasanaeth yn cael ei sefydlu ar gyfer gweithredu yn ystod Ionawr 2014, er mwyn caniatáu i ddefnyddwyr gofnodi eu digwyddiadau a'u ceisiadau eu hunain mewn amser go iawn. Mae TG yn ymchwilio i gyfleuster ailosod cyfrinair hunanwasanaeth i leihau'r galwadau i'r ddesg gwasanaeth, a chynyddu cynhyrchiant drwy argaeledd 24/7. • Comisiynwyd APSE i adolygu a datblygu dull mesur / monitro ar gyfer effeithiau cymdeithasol ac economaidd gweithgareddau yn Eirias. • Diwygiwyd oriau agor llyfrgelloedd a llwybrau'r Llyfrgell i'r Cartref yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus a cawsant eu gweithredu ym mis Hydref / Tachwedd 2013. • Mae cyfres o wefannau twristiaeth Dewch i Gonwy wedi cael eu hail-lansio. • Rydym wedi cyflwyno system Debyd Uniongyrchol ar gyfer taliadau gwersi nofio ac adolygu'r amserlen er mwyn lleihau'r rhestr aros. • Mae rhaglen optimeiddio llwybr glanhau strydoedd wedi cael ei rhoi ar waith. • Mae technoleg a ddelir â llaw rŵan ar gael ar gyfer arolygiadau asedau arfordirol. • Mae gweithredu 'wordfast' wedi lleihau ailadrodd gwaith wrth gyfieithu. • Rydym yn sefydlu Grŵp Llywio TG i flaenoriaethu datblygu TG corfforaethol ar draws y Cyngor.	
GA2	**Byddwn yn adolygu ein mannau gwaith - (gofod swyddfa)**	
	Sefydlwyd y Tîm Prosiect a'r Bwrdd Prosiect ym mis Mawrth 2013. Ers y diweddariad diwethaf mae safle wedi ei ganfod o fewn y lleoliad a ffafrir a mae'r trosglwyddiad wedi ei gwblhau. Mae swyddfeydd CBSC sydd wedi'u meddiannu ar hyn o bryd wedi'u nodi fel "o fewn cwmpas" a sefydlwyd Is-grŵp Preswylwyr sy'n cynnwys swyddogion allweddol o'r Gwasanaethau fydd yn defnyddio'r ateb terfynol. Pwrpas yr Is-grŵp yw deall beth fydd anghenion y gwasanaethau hyn yn y dyfodol. Mae gwaith yn awr yn dechrau ar Raglen Trawsnewid Busnes cyffredinol yr Awdurdod i adnabod dibyniaethau'r strategaeth swyddfeydd ar y rhaglen drawsnewid yn gyffredinol. Mae'r strategaeth yn hyrwyddo newid diwylliannol posibl ar draws yr Awdurdod a chyda hynny mewn golwg gweithredwyd peilot gweithio mewn modd hyblyg ganol mis Rhagfyr yn y Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer staff yn Ffordd Dinerth.	Oren
GA3	**Byddwn yn gwneud y mwyaf o gyfleoedd ariannu Ewropeaidd a chyfleoedd ariannu allanol eraill**	
	Mae'r Ddarpariaeth Adfywio Cymunedol Lleol bellach wedi arwain at gymeradwyo prosiectau gwerth dros £42.7m, gan ddenu tua £35m mewn grantiau ac arian cyfatebol o ffynonellau eraill. Roedd cam 1 cais VVP yn llwyddiannus, a cham 2 a gyflwynwyd ym mis Tachwedd 2013 yn awgrymu grant posibl o £14.7m yn erbyn cyfanswm gwariant o £41.25m.	Oren
GA4	**Rydym wedi ymrwymo i gyflawni'r Compact Cymru Gyfan ar Gydweithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru ac Awdurdodau Lleol eraill**	
	Sefydlwyd Grŵp Tasg a Gorffen gan y Pwyllgor Craffu Partneriaethau i ystyried unrhyw gydweithio nad ydynt yn rhoi gwybod amdanynt yn gorfforaethol. Mae pob partneriaeth a nodwyd wedi cael eu rhoi ar y rhaglen i gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu yn ystod y flwyddyn nesaf.	Oren

		Canlyniad Canol Blwyddyn 12/13	**Canlyniad 12/13**	**Targed 13/14**	**Canlyniad Canol Blwyddyn 13/14**	**COG**
GM 1	Cyfradd cyflawni PDR blynyddol	68.08 %	70.47%	80%	68.08	Oren

Mae'r gwelliant yn y gyfradd cwblhau ar gyfer PDR wedi bod yn faes ffocws parhaus. Mae pob gwasanaeth wedi cael cais i adolygu mewnbynnu data i iTrent i sicrhau bod y data yn gyfredol. Bydd adolygiad hefyd yn cael ei gynnal i ystyried y fethodoleg ar gyfer y mesur hwn. Gall wasanaethau rŵan gynnal PDRs grŵp ar gyfer grwpiau penodol o staff a dylai gynyddu'r nifer sy'n eu defnyddio. Yn ychwanegol at drafodaeth yn y Prif Bwyllgor Trosolwg a Chraffu, mae'r targed a goddefgarwch ar gyfer y mesur hwn wedi cael eu trafod yn yr UDRh a chynyddwyd y goddefgarwch o 60% i 70%. Bydd y rhaglen gwaith i'r dyfodol ar gyfer SPRs y gwanwyn 2014 hefyd yn dechrau trafodaethau ar ddadansoddiad y data PDR i gael sicrwydd bod rheolwyr yn dadansoddi anghenion y tîm ac yn cymryd camau priodol. Mae hwn yn gyfle i ystyried unrhyw sgiliau ychwanegol sydd gan staff.

Hunanwerthusiad o'n perfformiad

Mae'r adroddiad yn dangos y gwnaethpwyd llawer iawn o waith a bod prosiectau ar y gweill i foderneiddio ein dulliau o weithio ac i wella effeithlonrwydd ariannol y Cyngor. O ystyried yr hinsawdd economaidd, mae'r holl staff yn ymwybodol y bydd hyn yn parhau i fod yn her i sicrhau arbedion flwyddyn ar ôl blwyddyn, a bydd angen gwneud penderfyniadau anodd. Bu datblygiadau arwyddocaol wrth adolygu ein prosiect swyddfeydd, a bydd hwn yn ddarn allweddol o waith datblygu yn 2014/15. Mae tystiolaeth dda ein bod wedi manteisio i'r eithaf ar arian Ewropeaidd, ond mae'n rhaid i ni barhau i fonitro cynnydd a lobïo i sicrhau bod Conwy yn elwa o gylch 2014 o gyllid Ewropeaidd.

Meysydd i'w gwella / datblygu

Byddwn yn parhau i weithio i wella cyfradd cwblhau ac ansawdd y PDRs. Bu trafodaeth am berfformiad PDRs ym mhob Adolygiad Perfformiad Gwasanaeth a byddwn yn adolygu'r datganiad dull ar gyfer mesur. Mae'r perfformiad hwn yn rhannol berthnasol i'r amrywiol raglenni trawsnewid sy'n mynd rhagddynt. Mae hyn wedi arwain at berfformiad isel mewn meysydd gwasanaeth ble mae staff yn cael eu cyfweld / eu hadlinio ar hyn o bryd o fewn strwythurau gwasanaeth newydd. Bu diweddariadau i feddalwedd AD, iTrent, hefyd, sydd wedi golygu bod bylchau o ran cofnodi data mewn rhai meysydd. Gwnaed gwelliannau trwy gyflwyno Adolygiadau Datblygu Perfformiad i grwpiau o unigolion ar gyfer rhai carfannau o staff. Datblygwyd cynllun gweithredu i wella a monitro cyfraddau cyflawni'r adolygiadau datblygu perfformiad gan yr adran AD Corfforaethol.

3.0 Risgiau Corfforaethol

Caiff risgiau corfforaethau eu logio a'u monitro ar y Gofrestr Risg Gorfforaethol y gellir ei chael oddi wrth y Tîm Gwella a Datblygu Corfforaethol. Mae'r Gofrestr Risg Corfforaethol wedi'i had-drefnu dan benawdau'r 8 Canlyniad Dinasyddion. Mae'r Gofrestr Risg Gorfforaethol yn cael ei hadolygu'n rheolaidd gan Uwch Reolwyr, ac ar hyn o bryd mae'n destun craffu ddwywaith y flwyddyn gan ein rheolyddion allanol. Mae adroddiad mwy manwl ar wahân ar y Gofrestr Risg Gorfforaethol yn cael ei gyflwyno i'r Aelodau trwy'r broses ddemocrataidd bob chwe mis.

Mae'r risgiau newydd a ddaeth i'r amlwg o'r Adolygiadau Perfformiad wedi'u crynhoi isod. Dylid nodi eu bod yn dal i fod yn destun craffu ac asesu sgorau ac felly gallant newid.

Themâu risg newydd:

Gall y gyfradd ymyrraeth grant Ewropeaidd leihau
Gall newid posibl ym Mholisi Llywodraeth Cymru i'r consortia trafnidiaeth rhanbarthol arwain at ddargyfeirio adnoddau o sir Conwy.
Cost ariannol adfer ar ôl tywydd garw.

Mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn y broses o adolygu eu gwasanaeth a risgiau corfforaethol a bydd diweddariad yn cael ei ddarparu maes o law.

4.0 Cytundeb Canlyniadau

Roedd Cytundeb Canlyniadau 2010 - 2013 yn gymwys i gael grant o 100% ar gyfer y flwyddyn ariannol 2012/13. Mae'r cytundeb hwn bellach wedi dod i ben. Yn dilyn adolygiad o Gytundebau Canlyniadau yng Nghymru, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi Canllawiau (a ryddhawyd ar ffurf drafft ym mis Mai 2013 a'u cwblhau yn gynnar ym mis Hydref 2013) i ddatblygu set newydd o Gytundebau ar gyfer y cyfnod tair blynedd 2013-2016.

Mae strwythur y Fframwaith Cytundeb Canlyniadau newydd yn seiliedig ar ddwy ran: rhan 1 – canlyniadau, a rhan 2 - llywodraethu corfforaethol. Bydd y Grant Cytundeb Canlyniadau yn cael ei rannu rhwng y ddwy ran. Bydd gan rhan 1 ddyraniad o 70% i wobrwyo cyflawni canlyniadau a bydd gan rhan 2 ddyraniad o 30% ac os oes angen gellir ei defnyddio gan Lywodraeth Cymru i gyfeirio gwelliant i fynd i'r afael ag unrhyw argymhellion statudol i Weinidogion Cymru ynghylch trefniadau llywodraethu corfforaethol mewn awdurdod.

Felly, mae drafft Cytundeb Canlyniadau 2013-16 wedi cael ei ddatblygu ac mae yn y broses o gael ei gymeradwyo gan y Cabinet a Llywodraeth Cymru. Bydd gweithredu'r cytundeb yn cael ei fonitro yn chwarterol gan y Tîm Arweinyddiaeth Strategol. Mae crynodeb o'r cytundeb canlyniadau wedi'i restru isod.

Rhaglen ar gyfer Llywodraeth cyf:	**Thema Strategol:**	**Canlyniad eang:**
1	**Twf a Swyddi Cynaliadwy**	Cynnal yr Economi a Busnes
3	**Gofal Iechyd 21ain Ganrif**	Sicrhau bod pobl yn cael y cymorth y maent ei angen i fyw bywydau llawn
5	**Cymunedau Diogelach i Bawb**	Lleihau lefel troseddau ac ofn troseddau
6	**Mynd i'r Afael â Thlodi**	Mynd i'r afael â diweithdra a chodi incwm aelwydydd
7	**Amgylchedd a Chynaladwyedd / Cymunedau Gwledig**	Byw o fewn terfynau amgylcheddol a gweithredu ar y newid yn yr hinsawdd

5.0 Dangosyddion Perfformiad – Adroddiad Eithrio

Mae'r Dangosyddion Perfformiad Strategol Cenedlaethol a'r Dangosyddion Craidd yn cael eu cyflwyno i Lywodraeth Cynulliad Cymru yn flynyddol. Maent yn cael eu monitro'n gorfforaethol gan y Tîm Gwella a Datblygu Corfforaethol. Cyflwynwyd adroddiad eithrio cryno i'r Prif Bwyllgor Trosolwg a Chraffu ym mis Rhagfyr 2013. Mae'r crynodeb gweithredol wedi'i restru isod. Roedd yr adroddiad yn tynnu sylw at y dangosyddion perfformiad sydd wedi dangos gwelliant sylweddol a'r rhai sydd angen cymorth a ffocws pellach i gyrraedd targedau. Dylid nodi bod nifer sylweddol o ddangosyddion perfformiad sydd yn perfformio yn gyson dda, ond heb eu dangos.

Mae'r rhestr ganlynol o fesurau wedi perfformio'n dda iawn yn chwe mis cyntaf 2013/14.

Cyfeirnod	Teitl y Mesur
STS005	Glendid y priffyrdd
SCC021	Prydlondeb adolygiadau plant dan ofal
SCC042	Canran yr asesiadau cychwynnol a gynhaliwyd o fewn 7 diwrnod gwaith
PSR002	Nifer y dyddiau a gymerwyd i ddarparu grant cyfleusterau i'r anabl
HHA013 a M3.2	Y canran o aelwydydd a allai fod yn ddigartref ac yr ataliwyd digartrefedd iddynt
M1.3	Nifer y lleoliadau gwaith a gynigir gan CBSC
M1.4	Nifer y prentisiaethau a ddarperir neu a gefnogir gan CBSC

Mae'r rhestr ganlynol o fesurau wedi perfformio'n wael yn chwe mis cyntaf 2013/14.

Cyfeirnod	Teitl y Mesur
SCA018a)	Canran y gofalwyr y cynigiwyd asesiad iddynt yn ôl eu hawliau
SCC0014	Prydlondeb cynadleddau amddiffyn plant dechreuol
PPN001 (ii)	Arolygiadau busnesau risg uchel gan Hylendid Bwyd
PPN008 (ii)	Canran y busnesau newydd sy'n destun asesiad risg gan Hylendid Bwyd
LCL001	Nifer yr ymweliadau i lyfrgell gyhoeddus
M1.2b	Canran y bobl a gefnogir gan y rhaglen 'Gwaith Amdani' a gafodd ganlyniad cadarnhaol
M4.5	Canran y disgyblion sy'n gadael yr ysgol gynradd ac sy'n gallu nofio i safon ddigonol
M6.5	Canran y gostyngiad mewn gollyngiadau carbon deuocsid gan CBSC
M7.2	Nifer y digwyddiadau Gwasanaeth Ieuenctid i hyrwyddo diwylliant Cymreig

Gellir cael rhagor o wybodaeth ar berfformiad oddi wrth y Tîm Gwella a Datblygu Corfforaethol.

6.0 Gweithgarwch Rheoleiddio

Mae'r holl argymhellion a wnaed gan ein rheolyddion allanol i wasanaethau o fewn y cyngor ac i ysgolion yn cael eu hadolygu'n rheolaidd gan y Grŵp Gwella ac Archwilio ac adroddiadau yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio. Mae gan bob adroddiad gydag argymhellion ar gyfer gwella gynllun gweithredu wedi ei sefydlu, a chaiff ei gynnydd ei fonitro'r trwy'r Adolygiadau Perfformiad Gwasanaeth a'r Grŵp Gwella ac Archwilio. Hefyd cyflwynir crynodeb o'r camau gweithredu a gwblhawyd, sydd yn mynd rhagddynt, ac sydd dal angen gweithredu arnynt i'r Pwyllgor Archwilio. Mae crynodeb o adroddiadau archwilio allanol diweddar wedi eu rhestru isod.

Gwaith Lleol	Rheolydd	Cwestiwn i'w ateb	Statws
Asesiad Corfforaethol	Swyddfa Archwilio Cymru	A yw'r Awdurdod yn gallu cyflawni ei flaenoriaethau a gwella canlyniadau ar gyfer dinasyddion?	Roedd hwn yn arolwg 19 wythnos. Mae'r gwaith yn dirwyn i ben a disgwylir y bydd adroddiad drafft yn cael ei gyhoeddi ym mis Ionawr 2014.
Gwaith dilynol contractio a chaffael	KPMG	Olrhain cynnydd a wnaed ar argymhellion	Mae adroddiad drafft wedi ei dderbyn. Mae ymateb wrthi'n cael ei gwblhau.
Diwygio Lles - Adolygu trefniadau i reoli effaith diwygio lles ar Dai Cymdeithasol	Swyddfa Archwilio Cymru	A yw'r Cyngor mewn sefyllfa dda i reoli effaith diwygio lles ar dai cymdeithasol yng Nghymru yn effeithiol?	Briff wedi'i dderbyn gan Swyddfa Archwilio Cymru a'i ddosbarthu. Enwebwyd Sampl o Gynghorau i gymryd rhan yn yr astudiaeth, ac **nid yw Conwy** yn un ohonynt. Bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn dosbarthu arolwg i bob cyngor a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig ac yn cynnal cyfweliadau gyda Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig. Cyhoeddir yr adroddiad Cenedlaethol yn Ebrill – Mehefin 2014

Gwaith Cenedlaethol	Rheolydd	Cwestiwn i'w ateb	Statws
Cyflawni â Llai - yr effaith ar wasanaethau a dinasyddion – yr effaith ar wasanaethau lechyd yr Amgylchedd a dinasyddion	Swyddfa Archwilio Cymru	A yw gwasanaethau iechyd amgylcheddol y cyngor yn parhau i gyflawni eu rhwymedigaethau statudol gyda llai o adnoddau?	Briff wedi'i dderbyn â'i ddosbarthu. Cyfarfodydd wedi eu cwblhau a dogfennau i gefnogi tystiolaeth wedi'u cyflwyno. Disgwylir adroddiad crynodeb lleol ym mis Chwefror 2014: Disgwylir adroddiad cenedlaethol ym mis Ebrill 2014.
Pobl Ifanc heb fod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET)	Swyddfa Archwilio Cymru	A oes gwersi i lywodraeth leol eu dysgu o'r ymdrechion i sicrhau gwell canlyniadau i bobl ifanc sydd, neu sydd mewn perygl o fod yn NEET?	Cynhaliwyd gwaith ar y safle ym mis Mai 2013. Disgwylir Adroddiad Cenedlaethol ym mis Ionawr 2014
Astudiaeth Gwella Craffu	Swyddfa Archwilio Cymru	Mae hon yn Astudiaeth Wella i asesu safon craffu mewn awdurdodau lleol.	Adroddiad i'w gyhoeddi Ionawr 2014.

7.0 Gwella Conwy

Disodlodd proses hunanasesu Aelodau Etholedig a Staff, y Chwe Thema Allweddol, y broses hunanasesu 9 Thema Allweddol CAIP.

Ailenwyd Chwe Thema Allweddol yn Gwella Conwy yn 2012. Cymerwyd themâu 2012, a gytunwyd arnynt gan y Tîm Arweinyddiaeth Strategol, o flaenoriaethau Cynllun Corfforaethol 2012 - 2017, ac fe'u rhestrir isod:-

- Prentisiaethau
- Cefnogi Busnes
- Gofod swyddfa
- Ymgysylltu â'r cyhoedd
- Glanweithdra Strydoedd, Parciau, Traethau a Mannau Agored
- Twristiaeth

Cyflwynwyd adroddiad cynnydd canol blwyddyn i'r Prif Bwyllgor Trosolwg a Chraffu a'r Cabinet ym mis Hydref 2013. Yn gyffredinol, cadarnhaodd yr adroddiad bod cynnydd da yn cael ei wneud i weithredu'r argymhellion a wnaed. Roedd eleni yn arbennig o unigryw oherwydd bod un grŵp wedi gofyn am ganiatâd i ddatblygu'r argymhellion eu hunain. Yng nghyfarfod Cabinet mis Hydref cyflwynwyd adroddiad i ofyn am gymeradwyaeth i lansio un o argymhellion Gwella Conwy - i lansio Cerdyn Conwy ar gyfer twristiaeth. Lansiwyd y prosiect drwy'r Bwletin ym mis Rhagfyr 2013.

Ar adeg llunio'r adroddiad hwn, mae'r argymhellion Gwella Conwy 2013 wrthi'n cael eu cwblhau. Mae'r adborth cyfranogi o'r broses wedi bod yn gadarnhaol iawn. Bydd yr argymhellion yn cael eu cyflwyno i'r Cabinet ym mis Chwefror 2014.

Y Themau ar gyfer 2013 oedd:

- Gofalu Fforddiadwy: A yw cost ac argaeledd gofal yn cael effaith andwyol ar staff?
- Staff Iach: Beth all Conwy ei wneud i wella iechyd a lles staff?
- Arolwg Staff: Pa gamau sydd eu hangen i fynd i'r afael â'r adborth a gafwyd gan staff?
- Rheoli Absenoldeb: Edrych ar arfer da i gefnogi ein polisïau cyfredol
- Materion amgylcheddol: Edrych ar ffyrdd o leihau ein hôl troed carbon
- Yr Iaith Gymraeg - Beth all Conwy ei wneud i wella?

8.0 Crynodeb o'r Datganiadau Sefyllfa Gwasanaeth

Mae'r tabl isod yn rhoi crynodeb o'r llwyddiannau allweddol a'r meysydd ar gyfer gwelliant ar gyfer gwasanaethau unigol. Gellir cael manylion pellach trwy ddarllen y Datganiadau Sefyllfa Gwasanaeth y gellir eu cael naill ai gan y gwasanaeth eu hun neu'r Tîm Gwella a Datblygu Corfforaethol.

8.1 TG

Materion Allweddol / Meysydd gwaith pellach	Cynnydd Cadarnhaol
1. Mae'r adolygiad TG wedi ei gwblhau a bydd cynllun gweithredu yn cael ei gynnwys yn y Strategaeth TGCh. 2. Mae proses dwy flynedd o uwchraddio Microsoft ar fin dechrau a bydd hyfforddiant i gefnogi'r newid yn cael ei roi ar waith. 3. Mae porth hunan wasanaeth desg gwasanaeth yn cael ei sefydlu ar gyfer gweithredu yn ystod Ionawr 2014, er mwyn caniatáu i ddefnyddwyr gofnodi eu digwyddiadau a'u ceisiadau eu hunain mewn amser go iawn. Rydym yn ymchwilio i gyfleuster ailosod cyfrinair hunanwasanaeth i leihau'r galwadau i'r ddesg gwasanaeth, a chynyddu cynhyrchiant drwy argaeledd 24/7. 4. Mae gan y gwasanaeth broblemau capasiti oherwydd llai o staff, llai o gyllideb ar gyfer 2013/14 a gofynion y gyllideb yn y dyfodol ar gyfer 2015/16 ac ar ôl hynny. 5. O ganlyniad, mae'r gwasanaeth yn fwyfwy tebygol o wrthod gwaith o ganlyniad i leihau capasiti; mae angen mwy o adnoddau i ddelio â'r gofynion cynyddol ar y Gwasanaeth TG. 6. Mae pryder o hyd am yr angen i fuddsoddi mewn seilwaith TG i sicrhau bod cymorth priodol ar gael i ddiwallu'r rhaglen foderneiddio.	7. Mae'r Strategaeth TGCh wedi cael ei chwblhau ac mae yn y broses o gael ei chymeradwyo. 8. Mae'r gwasanaeth wedi ymestyn oriau'r ddesg gwasanaeth TG i 8am-6pm. 9. Mae TG bellach yn gyfrifol am reoli ffonau symudol. Mae contract newydd wedi cael ei dendro gan greu arbedion. 10. Mae wedi cyflogi Uwch Brentis cyntaf Conwy. 11. Mae rhwydweithiau ar y trywydd iawn i gwblhau'r gwaith o uwchraddio rhwydwaith ar gyfer ysgolion erbyn dyddiad cau'r grant. 12. Mae'r gwasanaeth yn sefydlu grŵp llywio TG i gytuno ar flaenoriaethu datblygiadau TG corfforaethol. 13. Mae cylchlythyr TG bellach yn ei le ac mae'r gwasanaeth yn rhoi diweddariadau rheolaidd i'r briff tîm ac i Aelodau. 14. Mae'r diweddariad gwefan ar fin dechrau ac mae grŵp gwefan wedi'i sefydlu i adolygu gwelliannau i'r safle.

8.2 Adnoddau Dynol Corfforaethol

Materion Allweddol / Meysydd gwaith pellach	Cynnydd Cadarnhaol
1. Bydd Partneriaid Busnes AD yn cynnal adolygiad o PDRs ym mhob maes gwasanaeth. 2. Dechreuodd y Prosiect Gwerth am Arian Gweithiwr Asiantaeth ym mis Gorffennaf a bydd Cam 1 y prosiect hwn yn dod i ben ym mis Rhagfyr 2013 gydag adroddiad o ganfyddiadau ac argymhellion i'r Tîm Arweinyddiaeth Strategol. 3. Mae cynllun gweithredu wedi'i sefydlu i fynd i'r afael ag argymhellion yr archwiliad mewnol. 4. Datblygwyd strategaeth AD ac mae yn y broses o gael ei chymeradwyo. 5. Bydd rheolwyr busnes AD yn gweithio i sicrhau bod rheolwyr yn cwblhau cyfweliadau dychwelyd i'r gwaith	9. Mae materion capasiti wedi'u datrys dros dro gydag aelodau staff ychwanegol a staff dros dro yn gwneud gwaith uwch. Ond, mae angen monitro hyn yng ngoleuni'r goblygiadau adolygiad Hill a'r adroddiad comisiwn Gwasanaethau Cyhoeddus sydd yn yr arfaeth. 10. Sefydlwyd fforwm Rheolwyr ac mae wedi cyfarfod 3 gwaith. 11. Datblygwyd Hyfforddiant Rheoli Newid ar y cyd â CIDT. 12. Mae e-slipiau cyflog wedi cael eu cyflwyno. 13. Trafodwyd Polisi Aflonyddu diwygiedig yn llwyddiannus a'i lansio ym mis Mehefin.

Materion Allweddol / Meysydd gwaith pellach	Cynnydd Cadarnhaol
ar ôl salwch. 6. Mae Iechyd a Diogelwch yn gweithio ar absenoldebau yn ymwneud ag iechyd meddwl a straen. 7. Mae adolygiad o brofiad yr ymgeisydd wedi ei gwblhau ac AD yn gweithio i lansio ffurflenni cais ar-lein. 8. Mae'r gwasanaeth yn gweithio i fynd i'r afael â chapasiti AD a gwaith ychwanegol wedi'i wneud gan yr adain gyflogau.	14. Mae Arolwg Staff wedi cael ei gwblhau ar y cyd â CIDT a'r canfyddiadau wedi'u cyflwyno. 15. Sefydlwyd Buddion Gweithwyr ac mae'n cynnwys lansiad y cynllun ceir gwyrdd, ffonau symudol a disgownt bws. 16. Mae Iechyd a Diogelwch yn gweithio gyda safleoedd ysgolion fel bod pob safle yn gweithio tuag at yr un safonau cydymffurfio. 17. Mae amddiffyn hawliadau Iechyd a Diogelwch yn llawer uwch na'r cyfartaledd ac mae nifer y damweiniau yn lleihau.

8.3 Gwasanaethau'r Gyfraith a Llywodraethu

Materion Allweddol / Meysydd gwaith pellach	Cynnydd Cadarnhaol
• Cafodd y lefelau sgiliau iaith Gymraeg eu cynnwys yn y ffurflen gais am swydd newydd ym mis Mai 2011. Ond, rydym yn dal i aros i'r ffurflen gais newydd gael ei chwblhau a'i hargraffu. • Mae'r broses Gwynion yn cael ei datblygu a Gweithdrefn Gwyno dau gam newydd yn cael ei datblygu sydd yn fwy yn unol â'r Model Gweithdrefn Gwynion Cymru Gyfan newydd. • Mae ymgynghori ar y gweill ynghylch yr adolygiad o ffiniau cymunedol • Rydym yn gweithio i hyrwyddo'r uned argraffu - mae diffyg defnydd yn gorfforaethol a allai arwain at faich ariannol ar gyfer y Gwasanaeth • Mae Safonau Iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru yn dal i fod dan adolygiad. • Mae'r Siarter Cwsmeriaid yn destun ymgynghori. • Mae angen gwella'r mesur cynllun corfforaethol ar gyfer craffu - mae hyn yn fater cofnodi yn bennaf. • Rydym yn gweithio gyda'r Asiantaeth Ffiniau ynglŷn â phriodasau ffug. • Mae'r gwasanaeth yn paratoi ar gyfer newidiadau deddfwriaeth etholiadol newydd ac etholiadau Ewropeaidd. • Mae'r adran gyfreithiol yn gweithio i weithredu system rheoli achosion cyfreithiol newydd. • Mae'r cynllun peilot erlyn wedi dechrau gan ddefnyddio timau rhithwir ar draws y rhanbarth. • Mae adolygiad o'r switsfwrdd ar y gweill i geisio dargyfeirio galwadau i ryddhau amser derbynyddion. • Mae angen gwaith pellach i gofnodi canmoliaeth ar draws y cyngor. • Mae'r Achrediad Datblygu Aelodau wedi dod i ben - ailymgeisio yn 2014.	• Rhoddodd asesiad Lexcel ganlyniadau cadarnhaol (Tachwedd 2013) • Mae'r gwasanaeth wedi cael canlyniadau meincnodi rhagorol • Mae'r gwasanaeth yn manteisio ar farchnadoedd allanol – gwnaethpwyd gwaith ar gyfer Cymdeithas Tai Eryri o 1/9/2013. • Dechreuodd y gwaith o Gydweithio ar draws Gogledd Cymru yn ffurfiol ar wasanaethau cyfreithiol ym mis Ebrill 2012, ac mae Rheolwr prosiect wedi cael ei benodi • Mae'r broses Llywodraethu Gwybodaeth a Chwynion wedi mabwysiadu gweithdrefn fwy ddibapur gan symleiddio'r broses. Mae system gofnodi ganolog yn cael ei datblygu yn y maes hwn. • Rhoddwyd hyfforddiant Proses Ddemocrataidd i Reolwyr Canol ym mis Medi 2013 • Mae'r cynllun gweithredu helaeth ar gyfer moderneiddio'r gwasanaethau Cofrestru wedi'i gwblhau gan mwyaf ac mae hyfforddiant staff wedi ei gwblhau i aml-dasgio ar bob math o gofrestriad. • Mae'r gwasanaeth cyfieithu wedi ehangu yn sylweddol ac yn darparu ar ran partneriaid. Mae hon yn enghraifft dda o weithio hyblyg er mwyn gwella recriwtio swyddogion. Mae Gweithredu 'wordfast' wedi lleihau ailadrodd gwaith wrth gyfieithu. • Y nod yw gwe-ddarlledu erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. • Mae 27 o'r 33 cyngor cymuned wedi derbyn y cynnig o grant i ddatblygu eu gwefannau • Canlyniadau canfasio Etholiadol ardderchog.

8.4 Uned Argyfyngau Sifil

Materion Allweddol / Meysydd gwaith pellach	Cynnydd Cadarnhaol
1. Ni fu unrhyw gynnydd hyd yn hyn ar y Cynllun Dosbarthu Dŵr. 2. Aildrefnwyd y cynllun ymarfer Bygythiad Bom oherwydd yr angen i ganolbwyntio ar lifogydd ym mis Rhagfyr 2013. 3. Mae'n debygol y bydd y Cynllun Llygredd Olew Morwrol yn cael ei ddatblygu fel Prosiect rhanbarthol oherwydd newidiadau yn y Cynllun Cenedlaethol 4. Mae rheolwyr y rhanbarthau wedi'u penodi ar gyfer y cydweithio rhanbarthol. Mae'r dyddiad gweithredu wedi cael ei osod ar gyfer 1 Mai, 2014. Ond, mae angen eglurder pellach ynglŷn â'r trefniadau llywodraethu.	1. Mae'r cynllun clirio safle wedi'i gwblhau 2. Cymeradwywyd a deddfwyd y Fframwaith Rhew ac Eira 3. Cynhaliwyd Hyfforddiant Rheoli Argyfwng ar gyfer Uwch Reolwyr ym mis Mehefin 2013 4. Mae gwaith yn mynd rhagddo ar y Cynllun Adfer 5. Mae Hyfforddiant Wardeiniaid Llifogydd wedi ei gwblhau 6. Mae Cynllunio Cronfa Ddŵr yn awr yn symud ymlaen 7. Mae gan bob gwasanaeth Gynlluniau Parhad Gwasanaeth sy'n cael eu diweddaru'n rheolaidd gyda gwybodaeth briodol gan yr Uned Argyfyngau Sifil.

8.5 Gwasanaethau Rheoleiddio

Materion Allweddol / Meysydd gwaith pellach	Cynnydd Cadarnhaol
1. Argymhellion Ecoli wedi eu cwblhau - ond mae angen adolygu'r ddarpariaeth tu allan i oriau. 2. Mae angen gwella'r adborth i achwynwyr am y cynnydd a wnaed. 3. Mae angen i'r gwasanaeth adolygu ymagwedd y tîm at fonitro ac adrodd ar y mesur tai gwag. 4. Mae'r gwasanaeth yn sefydlu ei gyngor staff ei hun i rannu syniadau a gwella cyfathrebu. 5. Mae cyhoeddi'r cynllun sgorio hylendid bwyd wedi cynhyrchu ailymweliadau oherwydd bod busnesau eisiau gwella eu sgôr - mae hyn wedi cael effaith ar gapasiti. 6. Gweithio i adolygu'r dull o gofnodi cwynion a cheisiadau am wasanaeth. 7. Adolygu prosesau cynllunio o ganlyniad i beth oedi ar ôl gweithredu EDM. 8. Mae'r Prosiect Atebion Tai yn unol â'r targed i gael ei ddarparu gyda chyllideb bresennol y Gwasanaethau Rheoleiddio a Thai. Mae cynnydd wedi bod yn araf gyda'r prosiect SARTH, ond mae Rheolwr prosiect newydd wedi cael ei benodi 9. Mae diffyg capasiti yn y Tîm Cadwraeth.	10. Mae'r Adolygiad Partneriaeth Diogelwch Cymunedol wedi ei gwblhau a'i rannu i dimau 11. Mae ardaloedd baw cŵn wedi'u graddio yn ôl blaenoriaeth (a, b neu c) ac mae cynnydd yn cael ei adrodd yn ôl i Aelodau Ward. Rydym hefyd yn gweithio gydag ysgolion lleol i ddatblygu posteri i godi ymwybyddiaeth. Ar gyfartaledd, mae hyn wedi arwain at welliant o 90% yn yr ardaloedd hyn. 12. Mae'r ailstrwythuro cynllunio wedi cael ei gwblhau. 13. Mae cynnydd da wedi'i wneud ar y rhestr safleoedd hyll. 14. Mae'r perfformiad Grant Cyfleusterau i Bobl Anabl yn gwella 15. Mae'r gwasanaeth ar fin dechrau gwaith effeithlonrwydd ynni ym Mae Colwyn fel rhan o'r cais Arbed 2.

8.6 Partneriaethau

Materion Allweddol / Meysydd gwaith pellach	Cynnydd Cadarnhaol
1. Mae adolygiad o Un Conwy ar y gweill i symleiddio'r camau gweithredu a'r mesurau o dan bob canlyniad dinesydd. Rhagwelir y bydd hyn yn gwella atebolrwydd a pherchnogaeth gan Aelodau Bwrdd Gwasanaethau Lleol. 2. Mae'r tîm yn gweithio i wella llif gwybodaeth o bartneriaethau allweddol. 3. Mae angen adolygu capasiti i ddarparu mwy o gefnogaeth a chysylltiadau i arweinyddion Conwy ar y Bwrdd Gwasanaeth Lleol, Bwrdd Uchelgais a'r Bwrdd Arweinyddiaeth. 4. Cronfa Ddata Ymgynghori – mae adnoddau wedi'u hailgyfeirio o fewn y tîm i sicrhau bod hyn yn cael ei wella a gofynnir am adborth ar ddiwedd pob ymgynghoriad. Mae hyn hefyd wedi'i gryfhau ers hyfforddi swyddogion cyswllt yn y gwasanaethau mwy ond mae hyn yn dal i fod yn faes y mae angen ei wella. 5. Siarad gyda'n Cwsmeriaid a Chymunedau - Dull strategol ar gyfer cynnwys cwsmeriaid a'r gymuned - cyflwynwyd hyn i'w gymeradwyo ym mis Rhagfyr 2013. Gall y gwaith ddechrau ar y cynllun gweithredu rŵan.	6. Mae adroddiad blynyddol Un Conwy wedi'i gynhyrchu a'i gymeradwyo. 7. Mae adolygiad porth wedi'i gwblhau ar gyfer Prosiect Datblygu Gweithlu'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol. 8. Mae Cytundebau/ Memorandwm Dealltwriaeth/ Cylch Gorchwyl wedi'u sefydlu ar gyfer yr holl bartneriaethau (ac eithrio Cymunedau yn Gyntaf sy'n bartneriaeth newydd). Mae'r rhain i gyd wedi cael eu hadolygu gan yr Adain Gyfreithiol ac wedi'u hystyried yn briodol. 9. Ym mis Medi 2013, cynhaliodd Conwy eu cyfarfod craffu BGLl cyntaf gydag aelodau cyfetholedig o sefydliadau amrywiol y BGLl.

8.7 Archwilio Mewnol

Materion Allweddol / Meysydd gwaith pellach	Cynnydd Cadarnhaol
1. Mae 82% o archwiliadau wedi'u cwblhau yn erbyn targed o 85%. Mae hyn oherwydd bod angen nifer o ymchwiliadau brys. 2. Gweithio i symud i strwythur di-bapur a ffeilio gan ddefnyddio EDM. 3. Mae'r Rheolau Sefydlog Contractau wedi'u gohirio gan CLlLC ac yna Sir Ddinbych fel yr arweinydd. Mae Sir y Fflint bellach wedi cymeradwyo set y mae Conwy rŵan yn edrych arnynt i'w haddasu i adlewyrchu Conwy. Mae gweithgor wedi'i sefydlu i adolygu. Ceisio ei gymeradwyo erbyn diwedd mis Mawrth gan y Cyngor. A bydd hyfforddiant yn cael ei gyflwyno o fis Ebrill. 4. Mae'r gwasanaeth yn ystyried datblygu dull hunanasesu ar gyfer y pwyllgor archwilio.	5. Rhoddwyd cyflwyniad ar risgiau allweddol a rheolaethau i fforwm y rheolwyr. 6. Mae staff yn ymgymryd â chwrs hyfforddi Llywodraethu CIPFA. 7. Cwblhawyd yr adolygiad o gyfraddau sicrwydd 8. Gweithredwyd adolygiad o gynllun yr adroddiad. Mae'r gwasanaeth yn llunio adroddiad lefel uchel ar adroddiadau sicrwydd uchel yn unig.

8.8 Gwella a Datblygu Corfforaethol

Materion Allweddol / Meysydd gwaith pellach	Cynnydd Cadarnhaol
1. Mae cynllun gweithredu yn cael ei roi ar waith i fynd i'r afael â'r mater parhad busnes pan fydd LIC yn diffodd Ffynnon a'r bwlch cyn gweithredu PAN. Mae angen eglurder hefyd ar gost PAN. (PAN yw'r meddalwedd rheoli perfformiad newydd y mae Llywodraeth Cymru yn ei gaffael ar hyn o bryd). 2. Cynhelir adolygiad o'r broses Adolygiad Perfformiad Gwasanaeth ym mis Ionawr 2014. 3. Mae adolygiad o'r Bwrdd Rhaglen Trawsnewid Busnes ar fin dechrau. 4. Bydd adolygiad o'r cynllun corfforaethol yn cael ei gwblhau erbyn mis Mawrth 2014.	5. Mae adolygiad o amlder rhoi gwybod am ddangosyddion perfformiad yn gyflawn. Rŵan mae adroddiadau yn cael eu cyflwyno ar wahân i gyflymu'r cyhoeddiad. 6. Cafodd 100% o'r Grant Cytundeb Canlyniadau ei dderbyn. 7. Datblygwyd Hyfforddiant Rheoli Newid ar y cyd ag AD. 8. Mae adolygiad o gydweithio ar draws y cyngor wedi ei gwblhau ac mae Cynllun Gwaith i'r Dyfodol yn cael ei ddatblygu â chraffu partneriaeth. 9. Mae cynllun peilot adolygiad porth wedi ei gwblhau ac mae hwn bellach yn cael ei ddefnyddio i gynhyrchu incwm lle bo'n ymarferol i wneud hynny.

8.9 Cyllid

Materion Allweddol / Meysydd gwaith pellach	Cynnydd Cadarnhaol
1. Bydd hyfforddiant ar Gyllid Corfforaethol yn ei le erbyn 1 Ebrill 2014. 2. Mae camau cofrestru awtomatig wedi'u cwblhau ar gyfer dechreuwyr newydd bob mis - Hydref 2017 yw'r dyddiad y bydd yr holl rai a optiodd allan wedi'u cofrestru. Bydd hyn yn effeithio ar tua 400 o staff. Bydd tasg bob 3 blynedd i ailasesu'r rhai a optiodd allan. 3. Mae'r adain Gyflogau wedi bod yn cael problemau gyda chyflymder iTrent. Maent wrthi'n profi fersiwn newydd (10.2) gan na wnaeth y trwsiadau wella'r cyflymder. 4. Mae'r cynllun LAMS wedi cael ei ohirio oherwydd trafodaethau rhwng y Sector a Swyddfa Archwilio Cymru. Ond, mae banciau'r stryd fawr yn awr yn cynnig blaendal o 5% ac felly mae'r Cynllun Cymorth i Brynu Cenedlaethol yn cyfeirio prynwyr am y tro cyntaf at fanciau sy'n cymryd rhan. Mae achos busnes i edrych ar fenthyca â chymorth amgen wedi cael ei gyflwyno.	5. Mae'r llawlyfr Ariannol wedi cael ei ddosbarthu i bob Aelod staff perthnasol. 6. Er nad oes rheolwr prosiect ar gyfer O Brynu Hyd Dalu ar hyn o bryd, mae'r gwasanaeth yn parhau i gyflwyno'r system os yw hynny'n ymarferol. Bydd cefnogaeth prosiect ychwanegol ar gael ym mis Mawrth 2014. 7. Mae cynllunio olyniaeth wedi cael ei roi ar waith gan y Cyfarwyddwr Strategol, Cyllid ac Effeithlonrwydd. 8. Mae system ITF electronig newydd yn cael ei gyflwyno. 9. Mae cefnogaeth barhaus yn cael ei ddarparu i'r holl wasanaethau i gynorthwyo gyda chyflawni'r arbedion effeithlonrwydd. Mae gweithgorau Cyllideb grwpiau - sy'n cynnwys cynrychiolaeth Aelodau Etholedig, wedi'u sefydlu ar gyfer pob maes gwasanaeth.

8.10 Contractau a Chaffael

Materion Allweddol / Meysydd gwaith pellach	Cynnydd Cadarnhaol
1. Mae'r Tîm Caffael yn cefnogi gweithgarwch prynu ym mhob adran yn y Cyngor. Mae blaenoriaethau a therfynau amser sy'n gwrthdaro, a cheisiadau munud olaf am gymorth caffael yn aml yn dadwneud cynlluniau gwaith i'r dyfodol.	6. Darparwyd chwe sesiwn ymwybyddiaeth / digwyddiad datblygu. Roedd y diwrnod datblygu cyflenwr ar gyfer hyrwyddo'r prosiectau tai gofal ychwanegol newydd yn llwyddiannus iawn gyda chynrychiolwyr o 40 o fusnesau lleol. 7. Mae datblygiadau penodol o fewn ein

Materion Allweddol / Meysydd gwaith pellach	Cynnydd Cadarnhaol
2. Er y croesawir y cynnydd yn y ceisiadau am gymorth, mae angen strategaeth gaffael glir a chynllun gwaith i'r dyfodol y cytunwyd arnynt gyda'r holl Benaethiaid Gwasanaeth i sicrhau'r manteision mwyaf i'r Cyngor gan dîm gyda diffyg adnoddau. Ar hyn o bryd mae gan y tîm swyddi gwag sy'n effeithio ar eu gallu i gyflawni. 3. Mae'r gwasanaeth yn cynnal trafodaethau ynglŷn ag a ddylai fframweithiau gael eu cadw yn gorfforaethol a'r defnydd o O Brynu Hyd Dalu. 4. Mae'r gwasanaeth yn hyrwyddo ceisiadau consortiwm i gydweithio ar brosiectau mawr ac annog pob gwasanaeth i gynnwys cymalau budd cymunedol a gweithio ar gyfer mentrau bach a chanolig. 5. Mae'r tîm yn ystyried sut i fesur y nifer a'r math o gymalau cymdeithasol a ddyrannwyd mewn contractau.	gweithgarwch comisiynu trydydd sector yn cynnwys y defnydd cynyddol o wirfoddolwyr wrth ddarparu gwasanaeth; darparu gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau, annog a datblygu cyfleoedd cyflogaeth defnyddwyr gwasanaeth. 8. Mae Conwy yn arwain ar rai prosiectau Caffael a Chomisiynu Rhanbarthol a Chymru Gyfan a chefnogi a hwyluso gweithdai a chynadleddau ar y cyd. 9. Mae'r tîm yn gweithio gydag Athrofa Prifysgol Bangor ar gyfer astudiaethau cystadleuaeth a chaffael i gael mynediad at hyfforddiant a hyrwyddo arfer da i'w lledaenu i Swyddogion yn y Cyngor sy'n ymgymryd â gweithgareddau caffael datganoledig. 10. Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i wasanaeth caffael cenedlaethol a weithredwyd ar 1 Tachwedd.

8.11 Refeniw a Budd-daliadau

Materion Allweddol / Meysydd gwaith pellach	Cynnydd Cadarnhaol
1. Gohiriwyd Credyd Cynhwysol tan 2015 sy'n caniatáu rhagor o amser i baratoi. Roedd adroddiad diweddar yn feirniadol iawn o system y Llywodraeth. 2. Ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2013 i 30 Medi 2013 cafwyd 565 o geisiadau am Daliadau Tai Dewisol. 3. Mae grŵp yn edrych ar sut i wella ffurflenni hawlio electronig a lle y gellir gwneud gwelliannau pellach. 4. Mae'r modiwl cyllid Paris newydd mewn perthynas ag asesiad ariannol o ffioedd gofal yn y cartref a gofal preswyl wedi'i oedi a rŵan mae ansicrwydd ynghylch gallu Paris i gyflawni oherwydd newid i godi tâl ar oriau a gynlluniwyd. Felly, mae trefniadau amgen yn cael eu hystyried. 5. Mae lefel y trosiant staff wedi cynyddu oherwydd ansicrwydd yn y gwasanaeth. Mae hyn yn bryder i'r Gwasanaeth Twyll yn arbennig. Mae dewisiadau amgen ar gyfer y tîm yn cael eu treialu i adolygu twyll ar systemau mewnol e.e. Gostyngiad Person Sengl a Thaliadau Uniongyrchol. 6. Mae diffyg mewn cyllid gweinyddol Adran Gwaith a Phensiynau ac mae achos busnes wedi'i wneud. 7. Mae LIC wedi rhoi gwybod nad oes angen argraffu Llyfrynnau Treth y Cyngor bellach a bydd hyn yn arwain at arbedion. Bydd gwybodaeth yn cael ei gyhoeddi ar-lein. 8. Mae'r tîm yn adolygu darpariaeth y Gwasanaeth Beili oherwydd newidiadau deddfwriaethol.	9. Mae lefel bilio Treth y Cyngor Electronig wedi cynyddu i 14.16%. Mae gwaith pellach yn cael ei wneud i annog rhagor o staff i gofrestru ar gyfer e-filio. 10. Cyflawnwyd ailachrediad Rhagoriaeth Cwsmer ar gyfer y gwasanaeth. 11. Cyflawnwyd y dyddiad cau meddalwedd budd-daliadau o 1 Ebrill gan y gwasanaeth a gwnaethpwyd ymdrech i gefnogi'r holl drigolion yn y sir yr effeithiwyd arnynt gan y newidiadau diwygio lles. 12. Cwblhawyd ymarfer mapio o'r holl sefydliadau yn y sir sydd ar gael i ddarparu cefnogaeth lles a lansiwyd gwefan fel y gall bobl ddod o hyd i gymorth yn ôl cod post. 13. Staff Hawliau Lles yn parhau i fod yn rhagweithiol iawn wrth gefnogi a chynorthwyo eu cleientiaid i gynyddu eu hincwm a hawlio'r budd-daliadau y mae ganddynt hawl i'w cael. 14. Mae system meddalwedd gwirio yn seiliedig ar risg Xantura, wedi cael ei roi ar waith i helpu i asesu hawliau budd-dal tai a budd-dal treth y Cyngor. Ar ôl tua 12 mis bu gwelliant wrth brosesu hawliadau newydd o 22.58 diwrnod i 18.14 diwrnod. 15. Sefydlwyd Bwrdd Creu Cymunedau Cryf a Threchu Tlodi.

8.12 AFfCh

Materion Allweddol / Meysydd gwaith pellach	Cynnydd Cadarnhaol
1. Mae cam 1 Glan y Môr Bae Colwyn wedi ei gwblhau a gall cam 2 y gwaith ddechrau yn amodol ar gyllid. 2. Mae system i reoli negeseuon e-bost generig adrannol yn cael ei ddatblygu. 3. Mae gweithredu ISO 9001 wedi dechrau yn yr adrannau Ymgynghori a Phrofedigaeth. 4. Mae angen adolygu anghenion swyddfa ERF er mwyn cwblhau integreiddio'r gwasanaeth newydd. 5. Mae pob prosiect yn y cynllun rheoli carbon rŵan wedi cychwyn, ond mae angen gwelliant yn y mesurau perfformiad. Mae hyn yn cael ei reoli trwy'r Bwrdd Rhaglen Werdd. 6. Mae gwaith wedi dechrau i integreiddio System Reoli Iechyd a Diogelwch OHSAS 18001 ar draws y gwasanaeth. 7. Bydd Aelodau Etholedig yn cael eu hatgoffa i ddefnyddio'r rhif 5337 – bydd methu â gwneud hynny yn atal cofnodi'r tasgau gwaith ac, o bosibl, oedi wrth weithredu. 8. Nid yw cyllid y tu hwnt i 2014/15 i gyflawni'r dyletswyddau o dan y Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr wedi cael ei gadarnhau 9. Dylid prosesu newidiadau deddfwriaethol sy'n nodi bod angen prosesu gwastraff gwyrdd dan y 'Protocol Ansawdd Compost PAS-100' o Ebrill 2015, er mwyn eu cyfrif fel compostio at ddibenion y targedau ailgylchu statudol	10. Mae Cam 1 yr ailstrwythuro gwasanaeth ERF wedi'i gwblhau ac mae cam 2 yn datblygu yn gynt na'r disgwyl. Mae angen gwaith pellach i gymell cysondeb yn yr adran newydd. 11. Prentisiaethau - mae'r gwasanaeth yn ystyried tua 6 swydd ac yn cwrdd â Llandrillo i ystyried opsiynau. 12. Roedd y gwasanaeth parciau ar y rhestr fer yng ngwobrau Meincnodi APSE yn y categorïau 'Perfformiwr Gorau' a 'Gwelliant Mwyaf'. 13. Roedd y gwasanaeth Profedigaeth ar y rhestr fer yng ngwobrau Meincnodi APSE yn y categori 'Perfformiwr Gorau'. 14. Cyflawnwyd Lefel 4 y Ddraig Werdd ar gyfer y Cyngor. 15. Cyhoeddwyd y Strategaeth Cynaladwyedd. 16. Mae'r treial Trolibocs wedi cael ei gwblhau. 17. Cyflwynwyd gwasanaeth ailgylchu o ymyl y palmant i 5,000 o gartrefi yn yr ardal wledig. 18. Mae gan y Gwasanaeth y perfformiad glanhau stryd gorau erioed. 19. Cafwyd 15 gwobr ar gyfer ein parciau, mannau agored gwyrdd, a gwarchodfeydd natur, gan gynnwys 9 Baner Werdd a llwyddiant yn y gystadleuaeth Cymru yn ei Blodau.

8.13 Gwasanaethau Datblygu Cymunedol

Materion Allweddol / Meysydd gwaith pellach	Cynnydd Cadarnhaol
1. Mae Bwrdd Gweledigaeth Llanrwst wedi'i sefydlu ac mae amcanion wedi cael eu hadolygu. Mae angen gwaith pellach i gael cyllid i gyflawni'r weledigaeth. 2. Mae Grŵp Llyfrgell Gymunedol Bae Penrhyn wedi dod i ben. Mae cynnydd wedi'i wneud gyda'r grŵp cymunedol / Cyngor Tref ym Mae Cinmel, sy'n debygol o fod yn fabwysiadwr cyntaf y model Llyfrgell Gymunedol. Mae grŵp Penmaenmawr bellach wedi'i hen sefydlu ac mae grŵp Llanfairfechan yn datblygu. 3. Er bod gwaith cwmpasu cychwynnol y Strategaeth Wybodaeth Gwasanaeth Llyfrgell wedi cael ei wneud, bydd cwblhau'r strategaeth yn cael ei ohirio tan 2014/15 o ganlyniad i bwysau gwaith gweithredu'r oriau agor llyfrgelloedd diwygiedig ac adolygu'r Llyfrgell i'r Cartref a'r Llyfrgell Deithiol.	7. Mae'r Bwrdd Rhaglen CDLl wedi ei sefydlu ac yn cyfarfod yn rheolaidd i fonitro'r broses o weithredu'r CDLl. 8. Adolygwyd y pum cynllun ardal a'u cyfuno yn un cynllun ar gyfer y sir 9. Mae'r adolygiad o Astudiaeth Adwerthu Conwy wedi cael ei gwblhau gan roi cyfeiriad clir ar gyfer buddsoddwyr manwerthu posibl. 10. Adolygwyd Cynllun Gweithredu Cyrchfan Conwy 11. Mae cyfanswm o 1,929 o blant wedi cymryd rhan yn sialens ddarllen yr haf yn y llyfrgell, y nifer uchaf hyd yn hyn. Roedd hyn yn gynnydd o 7% ar y nifer o blant a ymunodd yn 2012. Darllenodd 1,305 o blant bob un o'r 6 llyfr yn gwneud y

Materion Allweddol / Meysydd gwaith pellach	Cynnydd Cadarnhaol
4. Comisiynwyd APSE i ddatblygu dull mesur / monitro ar gyfer effeithiau cymdeithasol ac economaidd gweithgareddau yn Eirias. Hefyd, mae'r gwasanaeth yn edrych ar foddhad cwsmeriaid a meincnodi. 5. Mae diffyg lle storio ar gyfer casgliadau Amgueddfa gan roi ei ddyfodol mewn perygl. 6. Mae angen adolygu Aelodaeth y CDG yng ngoleuni CDG 3	gyfradd gwblhau hefyd yr uchaf hyd yma, sef 68%, yn sylweddol uwch na chyfartaledd Cymru o 55%. Daeth 334 o blant yn aelodau llyfrgell newydd er mwyn cymryd rhan yn y Sialens 12. Lansiwyd nofio am ddim i'r Lluoedd Arfog.

8.14 Theatrau a'r Ganolfan Gynadledda

Materion Allweddol / Meysydd gwaith pellach	Cynnydd Cadarnhaol
1. Cyflwynwyd achos busnes ar gyfer paneli solar. 2. Er bod nifer yr archebion cynhadledd wedi gostwng, mae lefel y gwariant wedi cynyddu. 3. Mae trafodaethau i gytuno ar gostau yn asedau allweddol y cyngor yn cael eu datblygu, er yn araf, oherwydd capasiti. 4. Mae'r gwasanaeth yn gweithio i ystyried ffyrdd o gynnal arolygon cwsmeriaid electronig. Nid yw hyn yn ymarferol drwy'r wefan eto. 5. Bydd y mesurau perfformiad ar gyfer y gwasanaeth yn cael eu hadolygu er mwyn darparu adroddiadau mwy rheolaidd na rhai blynyddol. 6. Mae'r gwasanaeth wedi ffurfio ymddiriedolaeth celfyddydau Conwy (statws elusennol) a dylai hyn ganiatáu canolbwyntio ar y celfyddydau yng Nghonwy a gwneud cais am arian. 7. Mae angen datblygu'r Strategaeth Gelfyddydau. 8. Mae'r materion cynnal a chadw ar gyfer Venue Cymru yn dal i fod o bryder. Mae trafodaethau'n cael eu cynnal gyda ERF.	9. Crëwyd taflen Cwestiynau Cyffredin i roi gwybod am y rhesymau dros ffioedd gweinyddol tocynnau. 10. Mae'r gwasanaeth yn parhau i gynnig gwasanaethau cofrestru ar gyfer digwyddiadau. 11. Cafwyd cyllid gan gyngor y celfyddydau i drefnu sgyrsiau cyn cyngherddau, ffotograffydd preswyl / curadur ar gyfer y sir, hyfforddiant ar gyfer staff yn Nant Gwrtheyrn a chynhadledd ysgrifennu comedi. 12. Diweddarwyd y cynllun busnes gwasanaeth ar gyfer y Cyngor Celfyddydau. 13. Mae'r gwasanaeth yn gweithio i hyrwyddo'r Cerdyn Premier. 14. Mae Sgôr Effeithlonrwydd Ynni Venue Cymru rŵan yn B (roedd yn F yn 2009). 15. Mae Dangosiadau Byw yn mynd yn dda yn Theatr Colwyn 16. Ffurfiwyd tîm BIT ar y cyd â Choleg Glannau Dyfrdwy i adolygu ailgylchu. Bydd y staff yn ennill Cymhwyster City and Guilds. 17. Mae canlyniadau arolwg cadarnhaol wedi eu derbyn ar gyfer arlwyo mewnol.

8.15 Marchnata a Chyfathrebu

Materion Allweddol / Meysydd gwaith pellach	Cynnydd Cadarnhaol
1. Mae capasiti yn y gwasanaeth yn parhau i fod yn fater arwyddocaol – paratowyd papur i'w drafod yn y Tîm Arweinyddiaeth Strategol a chyflwynwyd achos busnes. Mae angen cymorth gweinyddol busnes hefyd. Mae angen i'r gwasanaeth ystyried a oes opsiynau ar gyfer cyllid Ewropeaidd i gynorthwyo. 2. Mae'r tîm yn gweithio i hyfforddi gwirfoddolwyr i helpu mewn digwyddiadau. 3. Mae angen i'r gwasanaeth hyrwyddo effaith economaidd digwyddiadau a rhannu'r wybodaeth hon gyda'r Aelodau Etholedig fel eu bod yn gallu gweithredu fel llysgenhadon. 4. Mae'r gwasanaeth mewn trafodaethau gyda Theatrau a Chynadleddau i benodi prentis ar y cyd. 5. Bydd y Strategaeth Ddigwyddiadau yn cael ei diweddaru yn 2014.	6. Mae grŵp digwyddiadau a marchnata corfforaethol bellach wedi'i sefydlu a bydd yn cael ei gadeirio gan y Cyfarwyddwr Strategol Economi a Lle. 7. Cwblhawyd dadansoddiad o PR / Sylw yn y Wasg a gafwyd a'i werth ar gyfer pob digwyddiad mawr yr ydym wedi'i drefnu. Bydd hyn yn cael ei ddefnyddio i helpu i sicrhau nawdd a thynnu sylw at faint o sylw cadarnhaol a geir o ddigwyddiadau allweddol CBSC. 8. Rŵan bod y strategaeth gyfathrebu wedi'i chymeradwyo, gall y gwaith o weithredu'r cynllun gweithredu cyfathrebu ddechrau.

8.16 Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion, Plant a Theuluoedd

Materion Allweddol / Meysydd gwaith pellach	Cynnydd Cadarnhaol
1. Bydd y gwaith ar y Strategaeth Comisiynu Gwasanaethau Cymdeithasol yn dechrau ym mis Ionawr 2014. Bydd yn parhau â'r ffocws ar alluogi. 2. Bydd ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaeth yn cael ei adolygu er mwyn gwella cysondeb. 3. Mae angen i'r gwasanaeth esbonio swyddogaeth goruchwylio a PDR a datblygu cynllun gweithlu. 4. Cynhelir cyfweliadau ar gyfer y Rheolwr safonau ansawdd ym mis Ionawr. Bydd deilydd y swydd yn adolygu'r dull gwasanaeth a chysondeb meincnodi. 5. Mae problemau o ran recriwtio Gofalwyr Maeth ac mae angen ymgyrch recriwtio newydd. 6. Mae'r gwasanaeth wedi adolygu ei risgiau corfforaethol a gwasanaeth. Bydd y gwaith hwn yn cael ei gwblhau ym mis Ionawr 2014. 7. Mae cyflwyno gofal gwell wedi cael ei ohirio a bydd adroddiad yn mynd i'r Prif Bwyllgor Trosolwg a Chraffu ar 14 Ionawr 8. Mae'r prosiect i gyfuno darpariaeth gofal preswyl cymdeithasol ac addysg yn Ysgol y Gogarth wedi cael ei ohirio am 12 mis er mwyn caniatáu ar gyfer agor yr ysgol. Bydd hwn yn brosiect cam 2.	9. Mae cyrhaeddiad plant dan ofal yn gyflawniad sylweddol. 10. Mae cam cyntaf y Trawsnewid Gwasanaethau Cymdeithasol wedi ei gwblhau. Mae'r strwythur rheoli wedi cael ei gyhoeddi a phenodwyd i'r rhan fwyaf o'r swyddi. 11. Dechreuodd y cynllun peilot gweithio hyblyg ym mis Rhagfyr 2013. Mae staff nad ydynt yn staff swyddfa yn Llys Dyfrig wedi cael cyfrifon defnyddwyr e-bost i wella eu mynediad i wybodaeth gorfforaethol a gwasanaeth. Darparwyd hyfforddiant hefyd. 12. Adolygwyd y Bartneriaeth Iechyd Meddwl yng ngoleuni newidiadau yn Ymddiriedolaeth GIG Betsi Cadwaladr. 13. Cwblhawyd yr Hyfforddiant Asesu Gofalwyr. 14. Cwblhawyd adolygiad y gwasanaeth mabwysiadu rhanbarthol. Mae'n debygol y bydd model Cymru Gyfan yn adlewyrchu'r Model Gogledd Cymru. 15. Mae Bwrdd Ardaloedd ar y Cyd wedi'i sefydlu gyda Betsi Cadwaladr.

8.17 Addysg

Materion Allweddol / Meysydd gwaith pellach	Cynnydd Cadarnhaol
1. Mae'r gwasanaeth yn aros am ganlyniad yr Adolygiad Hill ynghylch AALl rhanbarthol. Mae pryder ynghylch y gofyniad i gyhoeddi cynlluniau busnes ar gyfer pob elfen addysgol. Gallai hyn fod yn ymarfer biwrocrataidd. Mae'r ansicrwydd ynghylch dyfodol gwasanaethau addysg yn ei gwneud yn anodd cynllunio. 2. Cynhelir cyfarfodydd gydag ysgolion i helpu i roi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt am y lefel o newid. 3. Mae angen gwaith pellach i wella cyrhaeddiad ar lefel ysgol gynradd. Mae ysgolion sy'n tanberfformio yn cael eu targedu. 4. Mae recriwtio Penaethiaid yn dal i fod yn broblem - mae Adolygiad Robert Hill yn ceisio mynd i'r afael â hyn a chynnig canolfan arweinyddiaeth rhithwir a chyrsiau rhithwir a chanolfannau rhanbarthol. 5. Mae papur yn cael ei baratoi ar gyfer aelodau etholedig i ystyried a ddylid alinio addysg i'r Gwasanaethau Cymdeithasol i greu Gwasanaeth y Bobl. 6. Gweithredwyd GwE ym mis Ebrill 13 - Cafwyd yr adroddiad cyntaf ond mae angen i'r gwasanaeth egluro lefel y manylion a ddisgwylir. Mae GwE yn datblygu, ond mae angen i ni ganiatáu i'r cyfnod pontio ei sefydlu ei hun. Mae comisiynwyr yn gweithio'n agos gyda GwE i sicrhau bod cymorth yn mynd i'r ysgolion cywir. 7. Mae lefelau cronfeydd wrth gefn mewn ysgolion yn dechrau gostwng ond mae angen rhagor o waith mewn rhai meysydd neu bydd cronfeydd wrth gefn dros y trothwy yn cael eu dileu 8. Mae rhai problemau wrth fonitro'r mesur STEM yn y Cynllun Corfforaethol - mae angen adolygu. 9. Mae angen trafodaeth yn y Bwrdd Rhaglen Werdd ynglŷn â sgorau ynni mewn ysgolion. 10. Mae iTrent wedi rhoi cyfrifoldebau cyflogres ychwanegol ar staff AD sy'n arwain at heriau capasiti.	11. Cymeradwywyd strategaeth i adolygu llefydd gwag mewn ysgolion ac mae hyn wedi'i gynnwys yn swyddogaeth y bwrdd moderneiddio ysgolion. 12. Mae Adeilad Ysgol y Gogarth yn datblygu yn dda. Mae timau arbenigol yn symud i Ysgol y Gogarth. 13. Mae'r adolygiad APSE Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol yn datblygu'n dda. 14. Mae cyrhaeddiad ar lefel ysgol uwchradd yn gwella. 15. Mae clybiau wedi'u sefydlu mewn ysgolion uwchradd i roi sgiliau i rieni gefnogi eu plant gyda adolygu. 16. Lansiwyd y Tîm o Amgylch y Teulu ym mis Mawrth 2013. 17. Cymeradwywyd Strategaeth Rhianta Corfforaethol ar gyfer Plant Dan Ofal. 18. Mae Cam 1 Moderneiddio Ysgolion Cynradd yn mynd rhagddo gyda'r nod o gwblhau'r ysgol ardal yng Nghyffordd Llandudno erbyn Medi 2015 (yn amodol ar gymeradwyo cyllid) 19. Cwblhawyd treial o ddefnydd iPads ar gyfer disgyblion gydag anhwylder sbectrwm awtistig mewn ysgolion prif ffrwd ac mae wedi nodi arfer da.